"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD:

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1888. [RHIF 9.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Pregeth	193
O! mae'r Haf yn hyfryd	196
Sul yn Llundain	197
"Compensation Clauses"	200
Y Tŷ ar y Bont	201
Nodynau Gwasgarog	205
Dyn fel addolwr	208
Manion a Hanesion	215
Marwgofion	216

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

Gelynion Gwaethaf y Ddynoliaeth wedi eu gorchfygu!

Dyfyniadau o LYTHYR IV. *yr enwog Ddr. Pan Jones a ymddangosodd yn "Tarian y Gweithiwr" a'r "Celt" am Rhag.* 9, 1886.

GELWAIS yn masnachdy Mr. George, Hirwaun, yn ddiweddar. Y mae Mr. George wedi bod yn fyfyriwr diwyd yn ysgol fawr anian, ac wedi llwyddo i ddarganfod meddyginiaeth effeithiol rhag dau o'r anhwylderau mwyaf beichus yn haues y teulu dynol sef y **PILES** A'R **GRAVEL.**

Bu y ddau glefyd hyn drwy yr oesoedd fel yn chwerthin am ben pob meddyginiaeth. Y mae y cyntaf yn adnabyddus er dyddiau cwymp Dagon. Bu agos i'r clefyd hwn ysgubo ymaith holl breswylwyr pump o ddinasoedd y Philistiaid mewn un dydd am iddynt gymmeryd Arch Duw o Ebenezer i Asdod. Y mae y **GRAVEL** drachefn wedi bod yn angeu i filoedd, ac nid oes ond ychydig yn cael myned drwy y byd heb deimlo i ryw raddau oddiwrtho. Dyma y clefyd fu yn angeu i Napoleon III.

Yr oeddem wedi darllen lluoedd o dystiolaethau argraffedig, ac wedi clywed gan gyfeillion personol a chydnabyddion lawer am ddaioni y Pills; a gwn am luoedd yn y wlad hon ac yn America, rhai yn Damascus, yn Rhufain, yn Beyrout, llu mawr yn Paris a thrwy Germany, yn eu cadw yn wastad wrth law, fel TARIANAU rhag ymosodiadau y clefydon rhag-grybwylledig.

Yr oeddem wedi gweled tystiolaeth yr Ynad Williams i ddilysrwydd y tystiolaethau sydd yn cael eu cyhoeddi, a llu ereill na chyhoeddwyd etto. Wedi myned i Hirwaun a chael *interview* â Mr. George, prin y buasai yn deg i mi ymadael heb gael golwg ar y tystiolaethau. Wedi darfod y cysgod-esgus oedd genyf, cyfeiriais at y Pills, ac awgrymais "y gallai fod rhai yn amheu dilysrwydd y tystiolaethau;" wrth reswm, nid oeddwn I fy hunan yn un o'r cyfryw, fel pe tae. Heb ddweyd gair, taflodd o'm blaen glamp o lyfr mawr ar ffurf *scrap album*, a gofynodd i mi edrych a barnu drosof fy hun.

Yr oedd yno lythyrau yn mhob math o law-ysgrif,—o lun traed brain i'r German Text. Llythyrau o bob gwlad,—o China a'r Iwerddon, o San Francisco a Bagillt, o New Zealand a Dolyddelen, o Brestatyn ac Awstralia, o Liverpwl a Gibraltar, o Ysgotland a Llanrwst, o Lundain a Llanbabo, o Lanandras a Solva, o Carlisle ac Eglwyswrw, o Lanelwy a Llanbedr, o Benrhyndeudraeth a Phenrhyn-Gobaith-Da, o Cairo a Cheinewydd, o Gaercystenyn a Chaerfyrddin, o Rufain, Paris, a Naples.

Y mae meddyginiaeth Mr. George o flaen y wlad er ys dros 20 mlynedd, ac y mae eu cymmeriad wedi myned *mor eang â gwareiddiad*, canys bydd ymfudwyr, cenadon, a morwyr yn eu cymmeryd gyda hwynt i bob lle. Dywedwyd i mi gan rifyddwr o fri—pe byddai dyn yn myned ar daith o gylch y ddaear a gollwng *pill* ar ben pob llathen, y byddai raid iddo fyned fwy nag unwaith o gylch y ddaear cyn cael lle i'r *Pills* y mae Mr. George wedi eu troi allan o'i *laboratory* mewn ugain mlynedd!

Y mae y Feddyginiaeth werthfawr hon i'w chael mewn tair ffurf:—

No. 1.—George's Pile and Gravel Pills (Label wen).

No. 2.—George's Gravel Pills (Label las).

No. 3.—George's Pills for the Piles (Label goch).

Ar werth drwy yr holl fyd mewn blychau 1s. 1½c. a 2s. 9c. yr un; drwy y post 1s. 3c. a 3s. yr un. ☞ Family Boxes, yn cynnwys un blychaid o No. 1, un o No. 2, ac un o'r No. 3 Pills, 2s. 9c. yr un. Drwy y post, 3s. Arbedir llawer wrth brynu y blychau mwyaf. Perchenog:—

J. E. George, M.R.P.S., Hirwain, Glam.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1888. [RHIF 9]

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda"—PAUL.

PREGETH.

ESAI. XL. 31.—"Eithr y rhai a obeithiant yn yr Arglwydd a adnewyddant eu nerth; ehedant fel eryrod; rhedant, ac ni flinant; rhodiant, ac ni ddiffygiant."

(Parhad o'r rhifyn diweddaf.)

RHESWM arall dros y syniad gau hwn am gydymgais yw fod dynion yn awyddus i ddyfod yr hyn a elwir yn gyffredin yn "foneddigion annybynol." Pob peth o'r goreu. Dylem i gyd amcanu at ddyfod yn annybynol, a meddu ar deithi y boneddwr. Ond y pwynt yr ydym fynychaf yn cyfeiliorni ynddo yw y *cyfryngau* a fabwysiadwn i gyrhaedd yr amcan hwn. Tybia llawer o honom mai golud yw yr unig gyfrwng i hyn. O ganlyniad, yr ydym yn treulio y rhan oreu o'n bywyd wrth geisio am y golud sydd i brynu i ni y teitl o "foneddigion annybynol." Ond dylem gofio y ddwy ffaith hyn—nad yw golud erioed wedi prynu, ac ni phryn fyth wir annybyniaeth, ac nad yw erioed wedi gwneyd boneddwr. Yr annybyniaeth a chwennychwn am dano sydd o'r nodwedd iselaf—yr annybyniaeth, er enghraifft, o snapio bysedd mewn dirmyg ar ein cymmydogion; a diwrnod blin fydd hwnw pan allo dyn, yn yr ystyr hwn, ddweyd ei fod yn hollol annybynol ar y sawl sydd o'i gwmpas. Os yw yn seilio ei annybyniaeth ar ei feddiannau, y mae, ar yr un pryd y mwyaf dybynol o ddynion, oblegyd ei fod at eu trugaredd fwyaf. Heblaw hyn, nid yw byth yn sicr y derbynia ddim yn bur; nis gwyr a yw y cariad a dderbynia yn bur, fod y cydymdeimlad yn bur, neu fod yr hunan-aberth er ei fwyn yn bur. Yr annybyniaeth yr hiraethwn yn aml am dano yw ymddyeithrwch balch oddiwrth ein cyd-ddynion, nad yw yn cynnyrchu dim ond annghydfod, tra mae yr annybyniaeth y *dylem* hiraethu am dano yn

gyffelyb i eiddo y ser, sydd yn cynnyrchu cydgordiad, ac yn cadw purdeb yn eu plith. Unig ammodau gwir annybyniaeth ydynt burdeb a daioni. Trwy gyfrwng y rhai'n yn unig y deuwn yn wir annybynol, yn annybynol ar y byd. Ond nid ydynt yn ein dyeithrio oddiwrth y byd. I'r gwrthwyneb, dygant ni i berthynas agosach ag ef; dygant ni i fwy o gydgordiad ag ef, a pharant i ni deimlo ein bod yn ffurfio rhan o un bydysawd mawr sy'n ymsymmud mewn ufudd-dod i rywbeth uwch a chryfach na'i hunan. Nid yw gwir annybyniaeth, gan hyny, yn ein dyeithrio ni, ond yn hytrach yn ein gwneyd ni yn aelodau i'n gilydd, yn gweithio ac yn byw mewn cydgordiad â'n gilydd, a phawb yn ufuddhau i Un Gallu Dwyfol, Mawr, Anfeidrol.

Y trydydd rheswm dros y gweithgarwch cyfeiliornus hwn yw fod dynion am grynhoi i yspaid o ychydig flynyddoedd y gwaith a ddylai gael ei estyn dros yr oll o'u bywydau. Yn y mwyafrif o achosion, gwneir hyn yn y gobaith o fwynhau y rhan olaf o fywyd mewn esmwythyd a digonedd. Nid yw y cyfryw ddynion yn ofni gwaith, oblegyd yn ystod yr ychydig flynyddau y gweithiant, gwnant hyny â'u holl egni, ac yn aml â'u holl wroldeb a'u hunan-ymddiried. Gan hyny, nid cowardiaeth yw. Ond dywedant wrthym nad ydynt yn bwriadu treulio eu bywydau fel slafiaid, os gallant, o bossibl, osgoi hyny. Y pwynt y mae'r cyfryw ddynion yn cyfeiliorni ynddo yw hwn —maent yn gwneyd gwaith yn ystad o gaethiwed; ac yn ail, gweithiant ar gyfer *ideal* gyfeiliornus. Gweithiant er mwyn bod yn segur. Gweithiant er mwyn cael gwyl hir. Mae ganddynt syniad cyfeiliornus am fywyd, oblegyd tybiant fod gan waith amcan; tra dylem ystyried gwaith yn gyfled â bywyd, ac edrych arno fel hanfod bywyd: os y peidia, y peidia bywyd hefyd. Ni ddylem hiraethu am ddirwyn bywyd i ben ag yspaid hir o esmwythyd a diogi, oblegyd dylai y pethau hyn fod yn ganlyniadau (*episodes*) bywyd, ac nid bywyd ei hunan.

Gallwn, gan hyny, symio i fyny brif achosion yr uchelgais gau hwn, y cydymgais gau, neu y gweithgarwch gau hwn, yn y tair brawddeg syml ganlynol, y rhai a glywn bob dydd mewn rhyw ffordd neu gilydd. Y gyntaf yw, Mai gan hwn a hwn rywbeth newydd; am hyny, rhaid i ninau ei gael. Yr ail yw, Yr wyf yn bwriadu bod yn foneddwr annybynol. Y drydedd, Yr wyf yn bwriadu bod yn un cyn pen fawr blynyddoedd. Eglurir y perygl y mae'r drydedd yn ein harwain iddo yn odidog gan Shakespeare, yn ei chwareugerdd, *Richard III.* Nid yw Richard etto yn frenin, ond mae yn anelu at y goron; a chyhyd ag yr erys y goron yn wobr i geisio am dani, y mae yn ymwadu fel gwron, ac nid oes dim yn rhy fawr iddo ei orthrechu. Mae yn ddewr, yn feiddgar, ac yn anorchfygol yn ei frwydrau *cyn* yr ennilla'r gwron; ond wedi iddo ei chael, mae ei gymmeriad yn gwanhau yn amlwg, oblegyd nad oes ganddo mwy ddim i ymladd am dano. Mae wedi cyrhaedd gwrthddrych ei uchelgais, a bellach nid oes ganddo ddim i fyw er ei fwyn. Nid yw mwyach y milwr hyf, beiddgar, a llym ei lygad; ond brenin dyrysedig, rhy wan i gadw y wobr mae wedi ei hennill ac mae'r dyn y bu efe yn ei ddirmygu a'i *scornio* yn ei chymmeryd oddiarno, ac yn cymmeryd ei fywyd yn y fargen,

Os ydym ni yn meddwl am gyfyngu ein gweithgarwch y tu fewn i gyfnod byr o'n bywyd, mae genym syniad cyfeiliornus am weithgarwch. Os cyrhaeddwn ni nod ein huchelgais yn gynnar mewn bywyd, ni fydd genym ddim i fyw erddo, dim i weithio erddo, a ni a ymgripiwn yn mlaen at angeu. Os gosodwn ni ein dysgwyliadau ar gyflawnu dim yn ddiweddarach mewn bywyd, deuwn fel y Brenin Richard, yn ddiamcan, a chollwn fywyd. Os yw bywyd i gael ei fyw trwyddo, rhaid iddo fod yn weithgar hyd y diwedd; heb hyny, deuwn yn wan ac eiddil.

Mae y byd, fodd bynag, yn hynod weithgar; ond gweithgarwch gau yw, yn gymmaint ag fod dynion yn hiracthu am weled diwedd eu llafur: mae gwaith yn ystad o gaethiwed iddynt. Ond dylem ddysgu edrych arno mewn goleu arall. Nid yw bywyd fel afon sydd yn rhuthro yn mlaen yn ofnadwy am ychydig bellder, ac yn diweddu mewn llyn llonydd. Dylai lifo o hyd nes ymgolli yn y cefnor; ac ar ei gyrfa yno ni ddylai aros, ond dylai amrywio ei chwrs, a chael hamdden dawel i gusanu y blodau teg sydd ar ei thorlan, yn hytrach na rhuthro'n benrydd, a'u dystrywio. Dylai hefyd hawlio cyfathrach â'r ser, a chael y nefoedd wedi ymddelweddu yn ei mynwes. Cronwch chwi nant, ac fe'i trowch hi yn bydew lleidiog; ond gadewch iddi lifo, a daw yn loew yn fuan. Yr un fath mewn bywyd, gweithgarwch yw yr unig ammod i'w gadw yn fyw a phur. Dyma brif ammod bywyd. Ac fel y ffrwd, rhaid i ni gyssylltu ein gweithgarwch â'r ser. Rhaid i fywyd redeg dan yr awyrgylch agored, a thros wyneb y ddaear. Ni ddylai cael ei guddio rhag goleuni a chariad Duw. Rhaid i'r gwaith a wnawn gyfathrachu â'r nefoedd. Rhaid i ni beidio gwneyd ein gwaith ein hunain, ond gwaith ein Tad. Beth bynag a wnawn, dylem ei wneyd yn enw Duw. Rhaid i ni ddysgwyl wrth yr Arglwydd, ac felly, ni ddarfydda ein gweithgarwch byth. Rhaid i ni buro ein gwaith bydol, a'i wneyd yn waith Duw. Drachefn, fel y ffrwd, rhaid i ni beidio bod bob amser mewn brys. Nid yw gwaith Duw erioed wedi cael ei wneyd mewn brys. Mae dynion mewn gormod brys y dyddiau hyn. Maent am aeddfedu yn gynt na phryd. Ond maent yn annghofio fod y ffrwyth, trwy y gweithgarwch hwn, yn aeddfedu yn unig ar un ochr. Maent wedi dadblygu ac awchlymu y deall yn unig, yr hwn sy'n dyeithrio dynion fwy-fwy y naill oddiwrth y llall, ac wedi esgeuluso y galon, yr hon a'n dygai ni yn nes at ein gilydd, a'n huno ni yn rhwymyn cariad. Yr ydym wedi esgeuluso y ddyledswydd o gadw uchelgais yn dawel weithiau, a chaniatau i'r galon ddweyd ei haraeth. Ni wyddant beth yw dal cymmundeb â Natur, i yfed o'i bywyd a'i hyspryd, a chael eu holl fodolaeth wedi ei drwytho gan gariad tuag ati. Ni wyddant am yr hyfrydwch a'r llawenydd sydd yn gorlifo'r galon wrth ddal cymdeithas ag yspryd unigedd; ond maent yn crebachu yr enaid trwy ddiffyg amser—cedwir ef yn garcharor yn ei gastell, ac ni chaniateir iddo byth ddrachtio o'r llawenydd a roddir iddo gan yr yspryd hwnw sydd yn fywyd a gorfoledd pob blagur, pob aderyn a blodeuyn. Rhoddwn i'r galon ei chyfran briodol mewn bywyd. Gadewch i ni gael ein hadegau tawel i ddal cymmundeb â

Natur, ac â Duw, fel y gallo yr enaid gael bywyd newydd a chynnydd. Bydded i'r meddwl a'r galon gyd-dyfu; heb hyny, mae eu bywiogrwydd yn ein blino, ac nid yw blinder yn arwydd o wir weithgarwch, oblegyd nid yw gwir weithgarwch byth yn blino na byth yn diffygio. Dylem feddwl mwy am iawnderau a chysuron ereill heblaw rhai ein hunain. Gwna hyn leihau y gofalon bychain sydd yn ein blino gymmaint, a chawn brofi gorfoledd newydd, a gwna ehediadau newyddion ein codi ar edyn yr eryr i fyny i'r creigiau tragwyddol a safant uwchlaw y byd, fry yn y nefoedd. Ni fydd dim i'n blino, na dim i beru i ni ddiffygio. DANNOE LEWES.

O! MAE'R HAF YN HYFRYD.

O! mae'r Haf yn hyfryd! O! mae'r wlad yn hardd!
Gwena'r ddol feillionog, pob rhyw lanerch chwardd;
Draw y bryniau wisgant eu gwyrddlesni glân,
O bob llwyn fe glywir cerdd yr adar mân.

O! mae'r Haf yn hyfryd! Mae'r uchedydd bach
Yn plygeiniol esgyn fry i'r awyr iach;
Mawl i'w Grewr byncia ar ei aden wan;
Myrdd o'r deildy prydferth unant yn y man.

O! mae'r Haf yn hyfryd! Bywyd ar ei sedd,
Tegwch sydd yn mhobman—Gauaf yn ei fedd;
Myrdd o flodau glwysion sy'n addurno'r llawr,
Yn eu dull croesawant drem yr euraidd wawr.

O! mae'r Haf yn hyfryd! Mae'r perllanau 'nawr
Dan eu ffrwythau addfed plygant tua'r llawr;
Byrddau rhywiog anian sydd i gyd yn llawn,
I fwynhau y gwleddoedd croesaw yma gawn.

O! mae'r Haf yn hyfryd! Awn tua glan y môr
I fwynhau bendithion hael yr Arglwydd Iôr,
Marchog brig y tonau'n llaw yr Hwn a'u gwnaeth;
Hyfryd ydyw casglu cregyn mân y traeth.

O! mae'r Haf yn hyfryd! a phan ddaw y nos,
Edrych fry i'r wybren: mae'n rhyfeddol dlos!
Sêr y nen ddysgleiriant fel llusernau clir,
I'n goleuo'n gysson drwy yr anial dir.

Derfydd Haf y ddaear, daw ei oes i ben,
Pob pleserau giliant, gwywdra ddaw is nen;

Ond mae gwlad uwch daear—gwlad y gwawl yw hi.
A fydd Haf tragwyddol hon yn Haf i mi?

Cefncoed. CASWALLON.

SUL YN LLUNDAIN.

YN Llundain, ac ar y Sul! dyma brofiad nad yw wedi dygwydd i mi ond anfynych yn ystod fy mywyd; ac ar y cyfan, nid wyf yn achwyn am hyny: o'r braidd y mae Llundain yn *suitio* i mi un amser, ac ar y Sul llai fyth. Yr wyf yn naturiol yn caru cymdeithas, ac ar y Sul yn neillduol ar y *look-out* am gymdeithas; ond yn Llundain yr wyf yn teimlo yn unig yn nghanol defnyddiau cymdeithas—mewn dinas o bedair miliwn, ac etto, yn teimlo unigedd nad wyf byth yn ei deimlo gartref.

Yr wyf yn gwneuthur y goreu o'r gwely yn Llundain—yn myned iddo yn gynnar ac yn aros ynddo yn ddiweddar. O'r diwedd, rhaid codi, neu golli'r boreubryd. Wedi sicrhau hwnw, yr wyf yn gosod fy hun i lawr gyferbyn â'r ffenestr sydd yn gwynebu'r heol, gyda defnyddiau ysgrifenu yn fy ymyl. Yn cofio am yr anwyliaid, ac yn ceisio rhoddi darlun iddynt ar bapyr o'r hyn sydd yn pasio'r heol a'r hyn sydd yn pasio drwy fy meddwl. Nid gwaith hawdd corffori mewn geiriau y naill na'r llall. O amrywiaeth yr olygfa sydd yn pasio i fyny ac i waered! y *panorama* sydd yn newid, yn newid yn barhaus! y bywyd megys dan *high steam pressure*, heb arno dôr na dydd na nos; pawb a phobpeth, pob cerbyd a phob dyn, megys ar frys gwyllt i gyflawnu ei neges. Nid yw hwn i mi yn *ideal* hapus o'r peth y dylai y Sul fod, ac ni charwn, mewn modd yn y byd, fod Suliau gweddill fy mywyd I yn gyffelyb i hwn. Beth pe gellid sicrhau *photo* o ochr ysprydol rhai o'r cannoedd hyn, a ymddangosant yn ddim amgen nâ pheiriannau hunan-symmudol, heb nemawr o'r cymhellyddion moesol yn gweithredu arnynt o gwbl. Y fath unrhywiaeth a gaem yn yr amrywiaeth. Caem yr £ s. d., wrth bob tebyg, wrth wraidd braidd yr oll —yr angen am fara a chaws. Y fath gymhellydd nerthol ydyw hwn —yr angen i ddylyn y gorchwyl gwaith o'r boreu hyd yr hwyr er sicrhau y *wherewithal* i gadw corff ac enaid gyda'u gilydd.

Ond dacw gerbyd yn tynu sylw arbenig—*brake*—yn llawn o bobl, ac yn ymddangos yn hynod debyg i rai yr wyf wedi eu gweled gartref ar ddydd Iau pan yn myned yn eu *Sunday best* am *outing* i Ystradfellte—gweithwyr o'r dosparth goreu yn myned allan i dreulio'r dydd, ac i bob ymddangosiad, yn bwriadu mwynhau eu hunain yn rhyw ddull.

Ond y mae yr amser yn pasio, a rhaid i minau gychwyn. Nid wyf yn gwybod yn gywir pa faint a gymmer i gyrhaedd y Bedford Chapel, ac yr ydwyf fi yn awyddus i fod yn brydlawn. Nid oes dim yn ymddangos i mi yn llawer mwy anngbysson nâ'r diweddariaid crefyddol hyn. Yr wyf wrth ddrws y capel tuag ugain munyd yn rhy gynnar.

Y gweinidog yn y capel hwn ydyw Mr. Stopford Brooke, M.A., caplan un amser i'w Mawrhydi y Frenines, ond yn awr, er mwyn cydwybod, gweinidog Undodaidd yn Llundain. Y mae llawer o nodwedd eglwysig yn parhau ar y gwasanaeth. Ond nid oes yma nemawr neb wedi dyfod etto. Nid oes yma ond ychydig am 11. Eir drwy y rhan gyntaf o'r gwasanaeth gan gynnorthwywr ieuanc, sydd wedi ei ddethol wedi hyny yn olynydd i'r diweddar Ddr. C. Beard, ar flwyddyn o dreial. Yr oedd y rhan gyntaf o'r gwasanaeth i mi yn dra dyddorol—fel newyddbeth. Nid wyf yn meddwl y caraswn ef fel peth parhaus. Yr oedd y canu a'r corganu yn hyfryd ac yn felus iawn—yr organ yn arwain a'r bechgyn ieuainc yn eu gwisgoedd gwynion yn cynnorthwyo, a'r gynnulleidfa yn cymmeryd rhan yn ganmoladwy iawn. Mae rhywbeth sydd yn *homely* mewn canu cynnulleidfaol. Daw yn agos at y dyn ei hunan. Ymddangosai yr organ i mi yn un tra ardderchog o ran melusder ei seiniau. Parhaodd y rhan gyntaf o'r gwasanaeth hyd tua chwarter wedi 12, ac yr oedd y bobl yn parhau i ddyfod i fewn hyd hyny. Yn awr y mae y gweinidog yn dechreu ar ei waith, ac erbyn hyn y mae y capel yn gysurus o lawn. Nid wyf yn gweled ond dau wyneb yn unig, heblaw eiddo'r gweinidog, ag y gallaf eu henwi, sef eiddo Dr. Martineau, yr hwn sydd yn eistedd ar y llofft, a Mr. Priestly Evans. Math o *charity sermon* oedd y bregeth, er ceisio moddion i yru ychydig o dlodion tlotaf Llundain allan i'r wlad er mwyn iechyd ac er mwyn agor eu llygaid i bethau gwell. Ychydig wyddom ni am ddyfnderoedd tlodi miloedd sydd yn Llundain yn ceisio gwneuthur *sham* o fyw. Mae carthffosydd ein trefydd mawrion yn gwneuthur gwasanaeth gwerthfawr, ac y mae cyfartaledd marwolaethau Llundain yn cymharu yn ffafriol â llawer o drefi; ond och! nid yw moddion dyrchafiad i'r dosparthiadau isel yn hanner gyflawnu eu gwaith. Er ymdrech eglwysi a chapelau a chymdeithasau dyngarol o bob math, nid ydys braidd yn gallu cyffwrdd ag ymylon y llygredigaeth ofnadwy. Mae yr isel yn myned yn is yn barhaus.

> "Ill fares the land to hastening ills a prey,
> Where wealth accumulates and men decay."

Ymddengys mwy o awydd yn y dosparthiadau uchel i wneuthur rhywbeth, ac etto, y mae y gagendor yn myned yn fwy bob dydd a'r perygl yn cynnyddu.

O'r braidd yn ein trefydd mawrion y gwyr dyn sut mae ei gymmydog drws nesaf yn byw. Mae yn hen ddywediad nas gwyr hanner y byd sut mae yr hanner arall yn byw. Ac felly y mae. Ond gwaith bendigedig ydyw eiddo'r eglwysi—ceisio dwyn dynion yn nes at eu gilydd, i fwy o gydymdeimlad â'u gilydd. Yma mae pawb yn gydradd. Nid oes yma, neu ni ddylai fod, fawr a bach, cyfoethog o thlawd.

> "Cyfoethogion a thylodion, er gwahaniaeth graddau a grym,
> Ydynt oll ogyfuwch yma, a'u gwych ddoniau'n ddiau'n ddim."

Cesglir yn y capel hwn bob blwyddyn dros gan' punt, a danfonir allan i'r wlad ugeiniau i fwynhau awelon balmaidd y bryniau neu lan y môr; a dychwela rhai o'r rhai hyn gydag adnewyddiad bywyd rhyfeddol, ac oll gyda meddyliau wedi eu heangu a chyda moddion siarad am lawer o fisoedd. Meddylier am y tlodion bychain hyn, na wyddant ddim am y byd mawr ond a welant yn heolydd culion y Brif Ddinas—dim yn brofiadol am fôr na mynydd nac afon, y pysg byw, yr adar, y coedydd, &c. Mae pob peth yn newydd a phob peth yn rhyfedd iddynt; ac felly, nid yw yn un syndod os bydd ambell un yn holi am y fuwch â'r llaeth enwyn. Ni fyddai Llundain yn ddim mwy rhyfeddod i fechgynos bryniau Cymru nag yw bryniau a dyffrynoedd y wlad i dlodion heolydd Llundain. Parhaodd y gwasanaeth hyd un o'r gloch, ac wrth ddyfod allan, fy un *point* oedd cael gafael yn Mr. Priestly Evans. Myned i lawr gydag ef i'r Brif Ysgol, a bwyta ciniaw ar gost rhywun, a gwneuthur adnabyddiaeth o amryw sydd i fod yn *shining lights* y dyfodol.

Ar ol ciniaw, y mae Priestly yn myned allan i wasanaethu ei genedl, a minau yn cychwyn tua Guy's Hospital i chwilio helynt hen ddosparthwr ffyddlon o'r Ymofynydd yn Nghwm Rhondda. Cael fy nghyfeirio i ystafell Lazarus; myned i fewn, a bwrw golwg ar bob tu hyd ben draw yr ystafell, er cael gweled y brawd. Methu. Dychwelyd, ac edrych yn fwy manwl. Methu etto. Holi. Cael ei fod wedi ymadael er ys mwy nag wythnos. Minau'n ymadael, ac yn gobeithio fod y brawd ar lwybr gwelliant.

Dychwelyd yn fy ol, a phan ddaeth yr amser, myned i gapel y Dr. Parker, Annybynwr enwog. Capel mawreddog a chynnulleidfa orlawn. Dyma gyfleusdra i waith. Yn tybied fod mwy o ysprydoliaeth mewn cynulleidfa o bobl fyw nag mewn seddau gweigion. Cwrdd â phob help a phob serchawgrwydd. Ond dyma'r organ yn dechreu. Mae yn fwy ei faint ac yn ardderchocach yr olwg nag un y boreu, ac yn fwy seinfawr, ond ddim mor soniarus. Wedi'r cwbl, efallai ei fod yn *suitio* yr *environment* yn well. Yr oedd i ni ein llyfrau emynau i gyd. Mae y bobl yn ddigon mwy boneddigaidd a mwy caredig i ddyeithriaid nag ydynt yn ein capelau ni.

Yr oedd Dr. Parker yn darawiadol iawn, ac yr oedd yn hawdd deall ei ddylanwad ar rai meddyliau. Nid wyf yn meddwl fod yno neb yn cysgu. Dyna ddyben rhai yn myned i gwrdd, onite? Yr oedd *style* y Doctor yn amrywio yn fawr, ac nid oedd dim yn undonog yn ei lais. Pa ryfedd fod cynnifer o yddfau tost yn mhlith pregethwyr? Pe curai y *drummer* ar yr un rhan o'r *drum* o hyd, elai yn dwll heb fod yn faith. Gellid rhedeg y seiniau mewn modd digon naturiol pe'r ymarferid â hyny. *Artificial*, fodd bynag, yr ymddangosai y Doctor i mi, ac yn tueddu yn ormodol at y *mountebank*. Ond beth am hyny? Yr oedd yn *success*. Nid yw y *mannerism* o nemawr pwys os bydd y gwirioneddau tragwyddol yn cael eu dwyn i gyffyrddiad â chalonau dynion. Yr oedd yn dda genyf gael clywed un dyn llwyddiannus, ond yr wyf yn teimlo y byddai yr hyn oedd yn *suitio* i Dr. Parker yn hollol anaddas i neb arall. Ac felly, y wers i bob un, fel yr ymddengys i mi yw, Bod

yn naturiol. *Be yourself.* Ni welais I ddaioni erioed o ddyn yn ceisio chwareu'r epa.

S. N. S.

"*COMPENSATION CLAUSES.*"

Mr. Gol.,—Bwriadwyd i'r ychydig sylwadau hyn ar yr uchod ymddangos pan oedd y *clauses* yn destyn dadl yn y Ty; ond yn herwydd rhyw bethau, methwyd cyrhaedd yr amcan. Pa fodd bynag, os oedd y sylwadau hyn yn briodol y pryd hwnw, y maent felly etto, oblegyd cawn mai nid wedi newid eu barn parthed y priodoldeb neu yr anmhriodoldeb o roddi iawn am y trwyddedi y gwrthodir eu hadnewyddu y mae y Weinyddiaeth, eithr yn unig newid yr amser. Y mae y gofyniad, gan hyny, yn aros am atebiad.

A yw y ddarpariaeth uchod yn deg? Atebwn yn ddifloesgni nad yw, ac fod yr ymgais i roddi iawn i'r tafarnwr, trwydded yr hwn y gwrthodir ei hadnewyddu, yn ymadawiad hollol oddiwrth yr hyn sydd wedi bod hyd yn hyn yn cael ei ystyried yn safon i'r egwyddor o *compensation*. Hyspys i chwi oll ydyw, mai un o ddybenion y cyfansoddiad gwladol ydyw amddiffyn meddiant personol, a pha le bynag y byddo meddiant personol yn cael ei aberthu ar allor lles y cyhoedd, yn ddieithriad gwneir iawn i'r perchenog hwnw am ei eiddo a fforffetir. Os ydych wedi sylwi yn fanwl, ynte, gwn eich bod eisoes wedi canfod fod yn rhaid wrth feddiant yn gyntaf oll cyn y gellir ei fforffetu, nac, o ganlyniad, gael iawn am dano. Ond atolygwch, a yw y drwydded yn eiddo y tafarnwr, ynte yr hyn a ganiateir iddo ydyw? Os ydyw, pa raid gweinieitho cymmaint sydd i'r hedd-ynadon bob blwyddyn am adnewyddiad y trwyddedi? Y mae pob dyn ag sydd yn adeiladu ty i'r dyben o'i droi yn dafarn yn gwybod yn flaen llaw nad ydyw yr hedd-ynadon yn rhwym o ganiatau trwydded iddo ef hyd y nod pe profid fod angen tafarn yn y lle. Yn mhellach, wedi cael sicrwydd am dani unwaith, y mae y person i'r hwn y caniatawyd y drwydded yn gwybod yn eithaf da mai peth y gellir ei fforffetio ydyw yn mhen y flwyddyn. Yn awr, a yw y peth y gellir heddyw yn gyfreithiol ei wrthod i un arall, neu, os dewisir ei roddi, ei alw yn ol yn mhen y flwyddyn—a yw peth felly yn feddiant? Os ydyw, dyma'r meddiant rhyfeddaf yn yr holl fyd. Y mae genym ni yn y wlad hon i'w ddysgu fod meddiant diamheuol unrhyw ddyn yn beth sydd yn hongian hyd y nod wrth ewyllys y brenin; ac mai barn y Weinyddiaeth ei hun yw, nad yw trwyddedi yn eiddo y tafarnwyr sydd amlwg oddiwrth y ffaith eu bod yn awr yn ceisio eu gwneyd. I bob dyn sydd yn mynwesu buddiant cymdeithas, naturiol iddo ydyw gofyn pa beth fydd canlyniad y ddarpariaeth hon o eiddo y Weinyddiaeth os try yn llwyddiant? Er mwyn bod mor glir ag y gallwn, cymmerwn enghraifft. Dyweder fod yr egwyddor o Ddewisiad Lleol wedi dyfod i weithrediad, ac mai barn rhyw gymmydogaeth ydyw, mai gwell, er lles y lle, fyddai bod wrth

hanner nifer y tafarndai sydd yno. Yna, yn ol cynllun y Weinyddiaeth, byddai yn rhaid wrth fwrdd cyflafareddol i benderfynu gwerth, nid yn unig y tai, trwyddedi y rhai sydd yn fynych yn chwyddo gwerth cynhenid y ty hyd ei ddegfed, ac am y rhai ni thalodd y tafarnwyr ddimai erioed, a byddai i'r treuliau hyn oll, wrth gwrs, ddisgyn ar y gymmydogaeth, fel pennyd, gallwn feddwl, am goleddu a rhoddi mewn gweithrediad eu syniadau dirwestol. Ar awdurdod neb llai nâ Syr W. Harcourt, cyst y cynllun hwn i'r wlad filiynau o bunnau, ac ä'r cwbl i gyd i logelli y tafarnwyr, fel iawn am yr hyn nad oedd yn eiddo iddynt. Profiad y blaid ddirwestol yn y wlad hon ydyw fod yr anhawsderau naturiol sydd i'w cyfarfod wrth ymgodymu â'r angenfil meddwol yn llawn ddigon i frwydro â hwynt, ond o hyn allan rhoddir treth deilwng o'r enw ar y wlad oddieithr iddi ddychwelyd o gyfeiliorni ei ffyrdd, ac ymattal oddiwrth bregethu rhagoriaethau egwyddorion sobrwydd. Gallesid meddwl fod y Weinyddiaeth hon wedi bradychu hurtwch a phenfeddalwch wrth geisio penderfynu y Pwnc Gwyddelig, ond y mae y *stroke* o wneyd *millionaires* o dafarnwyr y wlad ar draul y wlad yn deilwng o Undebiaeth.

J. M.

Y TY AR Y BONT.

Ychydig flynyddau'n ol, dygwyddodd fod yn dymhor anarferol o wlyb yn yr ardal lle'r oeddwn I yn byw. Disgynai gwlawogydd trymion yn ddibaid, chwyddai yr afonydd, ac, mewn llawer man, toreent dros y ceulanau. Teimlid cryn bryder am y bont a groesai yr afon yn y dref gyfagos, yr hon oedd yn gorfod dal nid yn unig ei phwysau ei hun, ond hefyd bwysau tŷ prydferth oedd wedi ei adeiladu arni. Yr oedd pobl yn gwahaniaethu yn eu barn parthed ei ddyogelwch. Dywedai rhai fod y colofnau wedi sefyll am lawer blwyddyn ac wedi herio llawer storom ddig. Daliai ereill eu bod, am y rheswm hwnw, yn dueddol i roddi ffordd, ac mai ynfyd oedd dysgwyl i'r hen bont bara byth.

Trigiannid y ty ar y bont gan deulu o'r enw Thomas. Gof oedd tad William Thomas yn Sir Aberteifi; ond o herwydd iddo briodi merch o Sir Forganwg, darbwyllodd hi ef i ymsefydlu yn y sir olaf, lle y cawsai rhagor o waith. Cymmerodd y ty ar y bont, a gwnai fasnach dda yno; ac wedi iddo ef farw, dylynwyd ef yn yr un grefft gan ei fab, William. Yr oedd ganddo ef a'i wraig Mari bedwar o blant, ac yn y ty hwn y preswylient, a chyda hwynt fam William, yr hon oedd erbyn hyn yn hen wraig. Dyn siriol, difraw, oedd William, yr hwn a edrychai ar ochr oleu pobpeth. Canai wrtho ei hunan hen rigwm ag oedd yn hoff iawn o hono—

'Paid myn'd i gwrdd â thrwbwl;
Os äi, fe aiff yn ddwbwl.'

Menyw dyner, gariadus, oedd Mari, yr hon a edrychai i fyny at ei gwr, gan gredu fod pob peth a ddywedai yn *right*. Carai ei chartref, o'r hwn y gallasai gael golygfa brydferth o'r afon i fyny ac i lawr, a chefnogai yn wresog yr hyn oedd wedi bod yn hir yn brif ddymuniad calon ei gwr, sef prynu'r ty iddynt eu hunain. Ond er fod y gwaith yn myned yn dda, nid oeddynt wedi storio digon o arian at y pwrpas, hyd nes i berthynas iddynt farw, gan adael iddynt ddigon i wneyd i fyny y diffyg. Prynwyd y ty yn yr Hydref, ac yn ystod y Gauaf dylynol y cymmerodd y gwlawogydd trymion y cyfeiriasom atynt le. Teimlai William yn bryderus o barthed i ddyogelwch ei dy, ar yr hwn yn awr yr edrychai gyda boddhad fel ei feddiant ei hun. Cynghorai llawer William i ymadael, a pheidio ymddiried i'r hen bont, gan deimlo yn sicr mai gwaelod yr afon fuasai diwedd yr holl deulu.

'Mae gen' I ddigon o ymddiriedaeth ynddi,' ebai William, 'mae wedi sefyll am lawer blwyddyn, a saif am flynyddau etto.'

'Wel, eich busnes ch'i yw hi,' ebai y llall, yr hwn a elai yn aml i ysmygu ei bib gyda William ar y bont. 'Yr ydym wedi gwel'd y gwaetha' o'r gwlawogydd, gobeithio, ac mae'r tywydd, o'r diwedd, ar glirio. Er hyny, 'dwy I ddim yn hoffi y cymmylau duon acw—maent yn arwydd o newid, 'rwy'n ofni.'

'Paid ceintach, fachgen,' ebai William, tra y canai yr hen rigwm—

'Paid myn'd i gwrdd â thrwbwl;
Os äi, fe aiff yn ddwbwl.'

''Af fi ddim i gwrdd ag e',' meddai ei gyfaill, 'ond mae gwahaniaeth rhwng hyny a chau ein llygaid ar berygl a ddwg i ni drwbwl y gallwn ei osgöi. Nos dda. Mae'n bryd swper.'

Y noson hono cymmerodd y cymmylau fantais, fel pe tae, ar y caddug, a symmudasant yn lladradaidd i'r lan, hyd nes y gorchuddient y wybren uwchben y dref a'r gymmydogaeth. Yn dawel iawn yr ymledasant, ac aeth pobl dda y dref i'w gwelyau yn gomfforddus, gan ddysgwyl cael hûn gysurus hyd y boreu.

Arosodd William ar lawr yn hwyr i edrych dros ei gyfrifon, ond aeth yntau o'r diwedd i'r gwely, a chysgodd mor drwm, fel na chlywai y gwlaw yn disgyn, a'r afon yn rhuthro yn nwydwyllt odditano, ond dihunodd ei wraig ef i wrando, oblegyd ni chlywsai hi y gwlaw yn debyg i hyn o'r blaen na'r afon â chymmaint o swn ganddi.

Tra y siaradai, dyna fellten fforchog yn gwibio heibio y ffenestr, yn cael ei chanlyn gan daran drystfawr a siglodd y ty hyd ei sylfeini. Ymgylymai Mari wrth ei gwr mewn ofn mud, a chlywid lleisiau y plant dychrynedig yn llefain ar eu rhieni o'r ystafell nesaf. Y baban yn unig a hunai yn ei gryd wrth ochr ei fam, yn anymwybodol o'r cyffro a'r terfysg.

'Un daran debyg i hona fydd yn ddigon i dynu'r ty i lawr,' ebai William.

Ar y gair, dyna fflachiad arall, a thwrw arall cyn gryfed â'r blaenaf. Llefai'r plant, ac unid â hwy gan Lisa'r forwyn, yr hon oedd wedi ymlusgo o'i hystafell heb wisgo bron,

'Gadewch i ni ddianc, meistr!' meddai. 'Gadewch i ni fyned allan o'r ty ac oddiar y bont. Yr wyf wedi clywed y bobl yn dweyd nad yw hi ddim yn ddyogel.'

'Taw, ferch,' ebai William, 'mae'r cymmylau yn gwasgaru, a'r storm yn tawelu; ac os felly, mae'r ty a'r bont yn ddyogel ddigon.'

Yr oedd yn iawn i feddwl fod y storm wedi gwneyd ei gwaetha'. Bu fflachiad arall, ond nid oedd mor danbaid, a thwrw arall, ond swniai draw yn mhell.

Aeth pawb yn ol i'w gwelyau, ac yn fuan cysgodd y plant, a chysgodd William hefyd, yr hwn, pan y tybiodd fod y perygl drosodd, oedd mor ysgafn ei galon ac mor ddifater à phe na fyddai dim yn bod. Ond nid felly Mari. Gorweddai hi, yn gwrando ar y gwlaw yn curo yn erbyn y ffenestri, ac ar swn uwch yr afon yn ymferwi ac yn ymrolio yn erbyn pileri y bont.

Yr oedd yn hyfryd i weled gwawr yn tori trwy y gwyll, yr hyn a'i galluogodd bob yn dipyn i wahaniaethu gwrthddrychau oddiamgylch iddi. O'r diwedd, syrthiodd i hun fer, ond pa c'yd y parhaodd ni ddaeth erioed i wybod. Darfu i swn dyeithr ei deffroi, ac ymddangosai'r gwely i siglo dani. Yr oedd y swn fel swn llwyth o gerryg yn cael ei arllwys ar ddaear galed. Ai daeargryn oedd? Dyna y meddylddrych cyntaf. Yr ail, A allasai fod y bont yn cwympo?

Deffrodd ei gwr. 'William,' meddai, 'deffrowch! deffrowch! Mae rhywbeth yn cymmeryd lle. Efallai fod y bont wedi rhoddi ffordd!'

'Ffolineb i gyd,' ebai William. 'Mae'r bont yn ddyogel ddigon; yr ydych wedi bod yn breuddwydio.'

Ond nid breuddwyd oedd. Neidiodd Mari at y ffenestr, a chododd hi.

'O Dduw, cymmer drugaredd arnom!' ebai. 'Mae'r bont wedi rhoi ffordd y ddau pen.'

Ymgrymodd William allan drwy y ffenestr, ac ymwelwodd wrth yr olygfa. Yr oedd dau pen y bont wedi cwympo, a dau fwa wedi myn'd, a'r rhai nesaf atynt yn siglo. Ymferwai yr afon fel môr, a theimlent y tŷ yn siglo, a thybient y syrthiai bob munyd.

'Ofnaf y bydd ar ben arnom cyn y gallwn gael un help,' meddai William mewn tôn alacthus. Chwifiodd arwydd o gyfyngder o'r ffenestr, a gwnaeth Lisa'r forwyn yr un peth oddiar ben y tŷ. Ymgasglodd torf fawr yn fuan ar lan yr afon, ond yr oedd y perygl o fyned i waredu y teulu anffodus yn anferthol. Syrthiodd bwa arall. Gellid gweled y tŷ yn ymsiglo gan y rhai ar y lan, a chlywid ysgrechiadau y fam a'r plant yn erfyn am gynnorthwy. Yr oedd llawer bâd gerllaw, ond ysgydwai y badwyr eu penau. Marchogodd boneddwr ag oedd yn hollol adnabyddus yn y dref ar garlam i ganol y dorf. Gwelodd sefyllfa pethau ar unwaith, ac wrth glywed gwaeddiadau'r plant, gyrodd at y badau, a llefodd,—

'Dau cant o bunnau i bwy bynag a ä i'w gwaredu!' Edrychai y badwyr ar eu gilydd, ond siglasant eu penau.

'Pum' cant!' meddai'r boneddwr, yr hwn oedd bron yn wallgof wrth weled y bont yn syrthio, ddarn ar ol darn.

'Pe cynnygiech bum' mil, 'dyw wiw yn y byd,' ebai un o'r dynion. 'Ni fyddai ond aberth o fywyd arall, ac mae genym i gyd wragedd a phlant i ofalu am danynt.'

Trodd y boneddwr ben ei geffyl oddiwrth yr hwn a siaradodd. 'Duw a gymmero drugaredd ar eu heneidiau,' meddai'n uchel. 'Byddant i gyd yn nhragwyddoldeb cyn pen fawr amser.'

Yn ddisymwth, wele ddyn ieuanc, tàl, cryf, mewn gwisg wledig, yn brysio o'r dref i'r man lle y gorweddai y badau. Yr oedd trem fawreddog yn ei ymddangosiad, oblegyd yn ei wynebpryd a'i gerddediad yr oedd osgo o benderfyniad. Taflodd olwg frysiog at y badau, a phwyntiodd at yr un y carai gael. Yna, gan benlinio am foment, plethodd ei ddwylaw mewn gweddi ddystaw. Y foment nesaf, gwthiodd i'r dwfr. Yr oedd yn amlwg y gwyddai'r ffordd i drin bâd; ond fel y dynesai at y bwa canol, ar yr hwn y safai y tŷ, ymddangosai y dyfroedd fel pe yn gwawdio ei ymdrechion i'w gyrhaedd. O'r diwedd, llwyddodd i ddwyn y bâd dan y ffenestri. Gwylid pob ysgogiad o eiddo'r rhwyf gan y creaduriaid tlodion yn y tŷ mewn pryder ofnus; a gollyngwyd Mari a'i baban i'r bâd y funyd yr oedd yn bossibl i wneyd hyny. Yna daeth y famgu a'r plant bob yn un. William oedd yr olaf, a chan fod y bâd yn symmud tua'r lan, dyna fwa arall yn syrthio, a siglai y tŷ yn ol ac yn mlaen fel brig y goeden yn y gwynt. Yr oedd yn adeg o gyffro dychrynllyd. Amlwg oedd mai cwympo wnai; ac ymddybynai y cyfan ar ba ochr y cwympai, pa un a gawsai preswylwyr y bâd eu hyrddio mewn eiliad i dragwyddoldeb, neu a gawsent etto siawns i ddianc.

Teyrnasai tawelwch yn mhlith y dorf pan y syrthiodd y tŷ ar yr ochr bellaf i'r bad, yr hwn fu yn mron dychwelyd; ond yr un trugaredd ag a'u harbedodd rhag un perygl a'u harbedodd hefyd rhag y llall, ac yn mhen ychydig funydau, yr oedd y teulu a'u gwaredwr gododig yn ddyogel.

Ond pwy oedd yr hwn a gyflawnodd weithred nad annghofir 'mo honi byth, cyhyd ag y croesir yr afon hono gan bont, ac y llefa'r afon ar ei gyrfa, ac y dylyna cenedloedd y naill y llall i ddweyd yr hanes? Dyna ofynai y boneddwr i'r dyn ieuanc pan y darfu iddo, ar ol tynu ei het, ofyn cenad i siglo dwylaw ag ef.

'Mae fy enw yn un na chlywir byth,' ebai y dyn ieuanc. 'Gwelwch wrth fy ngwisg fy mod o wlad arall; ond yr wyf ar fy nhaith drwy y dref hon, ac 'rwy'n falch fy mod wedi gwneyd rhyw wasanaeth ar y ffordd.'

'Yr ydych wedi peru cywilydd i'r dref,' ebai y boneddwr, 'nad oedd un o'i meibion yn ddigon gwrol i wneyd yr hyn a wnaeth dyeithrddyn.'

'Ond ymdeithydd wyf fi,' ebai. ''Does gen' I na gwraig na phlentyn, braidd gyfaill yn unman, i ofalu p'un ai byw ai marw wyf. Gallaswn I anturio fy mywyd pan fuasai yn feius yn ereill i wneyd hyny.'

'Cynnygiais bum' cant o bunnau i bwy bynag a elai i waredu y teulu,' ebai y boneddwr. 'Eich eiddo chwi ydynt, a gobeithio y gwnaiff y dref ddyblu'r swm.'

'Diolch i chwi, Syr, ond gwell genyf beidio eu cymmeryd. Ni pheryglais fy mywyd am awr, ond carwn wneyd yr hyn a all'swn dros fy nghyd-ddynion; ond gan eich bod mor garedig, dichon y rho'wch hwynt i'r teulu tlawd sydd newydd golli'r oll: bydd yn help iddynt.'

'Bydded fel yr ydych yn ewyllysio,' ebai y boneddwr, 'ond ai ni dde'wch i'm ty I am ychydig ddiwrnodau? Teimlwn hi yn anrhydedd i'ch cael chwi dan fy nghronglwyd.'

'Diolch i chwi, ond nis gallaf ddyfod. Rhaid i mi fyn'd i'm taith: mae genyf waith, ac nis gallaf aros.'

A chyda'r gair, ymgrymodd i'r boneddwr yn y fath fodd nes y teimlodd fod y dyeithrddyn, er mewn gwisg wledig, o waedoliaeth uchel, ac nad oedd yn caru rhoddi ei enw. Ni arosai ychwaith i dderbyn diolchgarwch y sawl oedd yn dysgwyl am dano. Aeth allan o'r dref fel y daeth i fewn—heb i neb wybod cymmaint â'i enw. Ond er yn anadnabyddus, cofir ei weithred ardderchog gan bawb, ac y mae yn ddiamheu wedi ei gosod i lawr yn llyfr yr Hwn a ddywedodd, 'Ti a geri dy gymmydog fel ti dy hun.'

NODYNAU GWASGAROG.

COLEG CAERFYRDDIN.

Weth roddi hanes arholiad diweddaf Coleg Caerfyrddin, mae y Dr. Pan Jones yn y *Celt*, am Gorphenaf 27, yn cymmeryd y cyfleusdra etto i wneuthur arddangosiad o'r gemau llenyddol sydd wedi ennill iddo y fath fri gan ambell un. Cyfeiria at rai cynlluniau newydd wedi eu bwriadu i wneuthur i fyny am ddiffygion y gorphenol. Bydd yno ddarlithiau duwinyddol gan *outsiders*, debygwn, ac y mae Bedyddiwr wedi ei bennodi yn un o'r darlithwyr, a barna y Dr. Pan fod hyny yn arwyddo awydd i roi ergyd i Gymmanfa y Bedyddwyr am wahardd Dr. Parker i gael anerch myfyrwyr Pontypwl.

"Yr oedd y pwyllgor cyffredinol," ebe'r Dr., "yn edrych yn galonog a lluosog. Yr oedd gwyneb yr hynafgwr o Pantydefaid yn eisieu. Gellid dweyd ar ol oes o bresenoldeb, 'A lle Thomas oedd yn wag.' Nid oedd un o'r tri chedyrn yno, ond gwnaed pob peth yn ddedwydd. Ni fu yno ball ar ddim, nac ar fwyta ciniaw. Yn unig bu pall ar y pres. Nid oedd arian y bwrdd i Pantydefaid eleni—felly y tybiais. Cymmerwyd ei le eleni gan Mr. D. M. Lewis, M.A., Coleg Prif Ysgol Gogledd Cymru. Dewisodd y Bwrdd Presbyteraidd, rai blynyddoedd yn ol, Mr. Lewis i fod yn athraw yn Nghaerfyrddin, heb iddo ofyn y swydd, ac heb i'r bwrdd ymgynghori dim â'r patriarch o Pantydefaid. Y fath ryfyg, onite? Rhoddodd y Dr. Vance Smith ei swydd i fyny * * * Teimlid yn brudd wrth ei weled yn gadael y maes, ond

teimlid yn llawen wrth weled y prif athraw appwyntiedig, W. J. Evans, yn cymmeryd ei le. Ni chlywais neb yn awgrymu dim yn erbyn ei bennodiad, yn erbyn ei allu, ei ddysg, na'i gymmeriad * * * Ond y mae yn sicr pe pennodasid Mr. Thomas i'r gadair, y buasai efe lawer yn hynach nâ Mr. Evans.

"Mae YR YMOFYNYDD (y Parch. J. R. Jones, M.A.), feddyliwn, yn anfoddog fy mod I wedi dysgu un gair o'r iaith Germanaidd, ond, yn sicr, gallaf ddweyd wrth y brawd o Aberdar and Co., 'Mi a fynwn petych chwi oll yn llefaru â thafodau dyeithr,' yna, ni ddeallasai y Cymry fod cymmaint o ffolineb yn rhwym yn nghalon y Protestwyr o Cardiland (?). Hyderaf, os bydd i mi byth wneyd ymosodiad ar rywun yn rhywle mor ddiachos ag yr ymosododd yr Undodiaid ar yr athraw W. J. Evans, y caf ddigon o ras i'w wneyd mewn iaith nad allo neb ei ddeall."

"EIN CYMMANFAOEDD CANU."

MR. GOL.,—Gan fod y cymmanfaoedd hyn wedi dyfod yn gyffredin yn mhlith yr Undodiaid yn Sir Aberteifi a Sir Forganwg, dymunwn alw sylw ein cynnulleidfaoedd at un neu ddau o awgrymiadau mewn cyssylltiad â'u llwyddiant. Y peth cyntaf sydd yn ymgynnyg i mi yw y dymunoldeb a'r fantais a fyddai yn debyg o ddeilliaw trwy gael rhagdrefn gyffredinol, hyny yw, un rhagdrefn yn mhlith ein holl eglwysi. Neilldner nifer pennodol o foneddigion a fyddont yn gymhwys at y gwaith, a gadawer iddynt ddethol emynau a thonau, y rhai a gan t fod yn faes llafur gwahanol undebau'r enwad am y flwyddyn. Byddai y rhagdrefn, trwy hyn, yn rhatach, ac yn fwy manteisiol ar lawer ystyr. Peth arall a garwn ei awgrymu yw, cael yr un arweinydd yn mhob cymmanfa am yr un flwyddyn. Yr wyf yn credu y bydd i hyn sicrhau mwy o lewyrch ar ein canu, bydd y *movement* a'r *style* yr un fath yn mhob cymmanfa, a daw ein cynnulleidfaoedd fel hyn i fwy o undeb gwirioneddol â'u gilydd. Hoffwn gael barn arweinwyr ein henwad ar y pwnc yn YR YMOFYNYDD, yr hwn, yr wyf yn sicr, a roddwch at eu gwasanaeth.

Yr eiddoch, &c.,

Cefn. D. EIDDIL JONES.

CRAIGYFARGOD.

"Y Parch. Charles Winter oedd y gweinidog cyntaf a fu yma. Dygasid ef i fyny yn Athrofa Caerfyrddin, dan ofal Mr. Perrot; ac wedi ei urddo yn Hengoed, a bod yno dros rai blynyddoedd, cymmerodd arweiniad y blaid Arminaidd yn yr eglwys, a phan aeth yn rhwygiad aeth allan gyda hwy, ac adeiladasant gapel Craigyfargod, a bu yn gweinidogaethu iddynt hyd ei farwolaeth yn Ebrill, 1773. Dylynwyd ef gan y Parch. Jacob Isaac, aelod o'r eglwys, ond cyn hir symmudodd ef i Loegr, ac urddwyd ei frawd, y Parch. Daniel Isaac, i gymmeryd ei

le. Dros yspaid gweinidogaeth y tri wyr hyn, yr oedd yma achos cymharol gryf, a pherthynai i'r eglwys amryw deuluoedd cyfrifol o blwyfydd Gelligaer, Bedwellty, a Merthyr. Dylynwyd hwy gan y Parch. Henry Evans; ond yn ei dymhor ef dirywiodd yr eglwys i Ariaeth ac Undodiaeth, yr hyn a fu yn wanychiad dirfawr i'r achos; ac am ryw yspaid cyn y flwyddyn 1830, yr oedd y lle wedi ei adael yn aunghyfannedd, fel y bu raid cau y capel.

"Mr. Lewis John Richards, amaethwr parchus o'r gymmydogaeth, oedd yr unig un o'r ymddiriedolwyr oedd yn fyw, a theimlai ef ryw anwyldeb mawr at y lle, fel y man yr arferai ei hynafiaid addoli, ac fel lle beddrod ei dadau; a pharhaodd ef trwy yr holl amser hwn i fyned i'r capel, fynychaf bob boreu Sabboth, i ddarllen pennod neu ddwy o'r hen Feibl oedd ar astell y pwlpud. Y fath olygfa ddyddorol oedd ei weled yn cyrchu yn unig i'r lle aunghyfannedd hwn Sabboth ar ol Sabboth."—Allan o *Gofiant Dr. Rees, Abertawe*, t. 1.

Y *Christian Life* A'R *Inquirer*.

Mae ymddygiad y ddau bapyr uchod at y protestwyr yn erbyn yr appwyntiad diweddaf yn Nghaerfyrddin wedi bod yn hynod annhog. Maent wedi rhoi pob chwareu teg i gefnogwyr y Bwrdd i draethu eu llen; ond yn y modd mwyaf diseremoni, wedi *boycottio* y blaid wrthwynebol. Os mai dyma syniad y golygwyr am gyfiawnder, Duw a'n helpio. Mewn canlyniad i'r appwyntiad, mae y Trindodiaid wedi penderfynu cael nifer o'u dynion blaenaf i draddodi cyfres o anerchiadau ar brif erthyglau eu credo o flaen y myfyrwyr, er eu cadw yn iach yn y ffydd. Ond pa ddarpariaeth a wneir ar gyfer yr ychydig Undodiaid sydd yn y Coleg? A yw y Prif Athraw newydd, ar ol holl ymffrost ei gyfeillion am ei sel Undodaidd, yn barod i wneyd rhywbeth tuag at gwrdd ag angenion ysprydol y gwyr ieuainc sydd yn cael eu trosglwyddo i'w ofal?

CERDDI ONLLWYN.

Nid oes ddyben, meddai rhywun, ar wneuthur llyfrau lawer, a darllen llawer sydd flinder i'r cnawd. Nid oes perygl, fodd bynag, i fwyafrif Cymru syrffedu ar ddarllen. Darllen rhy fach yr ydys yn Nghymru, a dyna'r pa'm, yn benaf, yr ydym gymmaint ar ol. P'am na wnai ein pobl ieuainc gydnabyddu yn fwy â llenyddiaeth? Darllenwch, bobl ieuainc. Darllenwch yn helaeth, ac heb ofni yn ormodol y *dyspepsia* y cyfeiria'r gwr doeth ato. Darllenwch er mwyn pleser, er mwyn gwrtaith, er mwyn gwybodaeth—rhyddiaeth a barddoniaeth. Ceisiwch i chwi eich hunain lyfrgell o weithiau da a fyddont er addysg ac adeiladaeth barhaus. Yn mhlith *Cerddi Onllwyn* y mae lluaws o rai buddugol; nid wyf am foment am awgrymu fod hyny o angenrheid-

rwydd yn brawf o ragoriaeth. Ond y mae yma lawer o farddoniaeth ddigon darllenadwy, megys y "Ferch o Gefn Ydfa," "Gobaith," &c. Nid yw yr athrawiaeth bob amser i fyny i'r marc. Sonir am Judas yn gwerthu Duw ei Hun am 30 darn o arian; Creawdwr yn marw ar y groes. Defnyddir geiriau weithiau mewn ystyr annghyfreithlon:—

"*Chwysigen* esmwyth a gyfnertha fron
Y nofiwr gwan rhag suddo dan y don."

Dymunwn iddo werthiant buan ar ei lyfr. Ei bris yw swllt, 136 tdd., gyda darlun o'r awdwr. S.

DYN FEL ADDOLWR.

PREGETH GAN Y DIWEDDAR BARCH. W. THOMAS M.A. (GWILYM MARLES.)*

Salm xxvii. 4; *Salm xxxxii.* 1, 2.

Nid oes achos i neb synu fod y gwasanaeth crefyddol hwn yn cael ei gychwyn; y syndod yn hytrach yw, na fuasai wedi ei ddechreu yn mhell cyn yn awr. Buwyd yn ymddyddan ar y mater lawer gwaith. Bu son, ychydig flynyddau yn ol, am godi capel cyfleus yma; bu arnaf fi awydd droion i symmud fy hun yn yr achos, ond ni ddarfu i mi wneyd, oblegyd—(a) lluosogrwydd galwadau ereill; (b) anymddiried ynof fy hun nas gallaswn wneyd cymmaint o chwareu teg â'r gwirionedd oedd genyf i'w gynnyg ag a fuasai dda genyf; (c) ac hefyd, yn wir, nid oeddwn heb feddwl y dylasai cais o leiaf gael ei wneyd gan rai o honoch chwi. Pan ddaeth y cais hwn, a chan fod y lle hwn yn gyfleus, penderfynais ar unwaith wneyd fy ngoreu, deued a ddelai. Yr oedd yn llawen genyf allu cydsynio i gynnyg i chwi fy ngwasanaeth y fath ag yw. Yr oeddwn wedi bod yn hir o'r farn y dylasai fod yma ddrws agored. Nid oeddwn yn gallu meddwl fod cydwybod rydd yn hyn o beth genym. Mae yn dda genyf eich hyspysu fod fy nghyfaill Mr. Thomas wedi addaw cylchynu â mi.

Pan ofynwyd i mi gyntaf a wnawn gydsynio i bregethu yma, atebais y gwnawn yn ewyllysgar; ond fod un peth ar fy meddwl y carwn ei ddwyn dan sylw y rhai oeddynt dros y mudiad, sef fod i barotoadau gael eu gwneyd ar unwaith i agor Ysgol Sabbothol yma. Sicrhawyd fi fod nifer o gyfeillion yn barod i wneyd eu rhan, a darfu i hyn fy nghalonogi yn fawr. Os gwelaf ymdrech yn mhlaid yr Ysgol Sabbothol yma, credaf eich bod yn ddifrifol, ac mor ewyllysgar i weithio eich hunain ag ydych i ddysgwyl ar ereill i weithio, ac yna, byddwn, chwi a minau, yn *gyd*weithwyr gyda'r gwaith da.

---

* Traddodwyd y bregeth hon ar achlysur y gwasanaeth crefyddol cyntaf a gynnaliwyd yn Ysgoldy Llandysul Mawrth 15, 1868, ac hefyd, ar achlysur cyffelyb yn Neuadd yr Odyddion, Dowlais, Ebrill 22, 1877.

Pan ofynwyd i mi gyntaf a wnawn gydsynio i bregethu yma, atebais y gwnawn yn ewyllysgar, ond fod un peth ar fy meddwl ag y carwn ei ddwyn dan sylw y rhai oeddynt dros y mudiad, sef fod i barotoadau gael eu gwneyd ar unwaith i agor Ysgol Sabbothol yma. Sicrhawyd fi fod nifer o gyfeillion yn barod i wneyd eu rhan, a darfu i hyn fy nghalonogi yn fawr. Os gwelaf ymdrech yn mhlaid yr Ysgol Sabbothol yma, credaf eich bod yn ddifrifol ac mor ewyllysgar i weithio eich hunain ag ydych i ddysgwyl ar ereill i weithio; ac yna byddwn, chwi a minau, yn *gyd*weithredwyr gyda'r gwaith da.

Er mwyn i bawb allu deall yn well, ac fel y byddo pob un sydd yma heno yn alluog i ateb i ereill pa resymau neillduol sydd genym dros ychwanegu un gwasanaeth crefyddol yn rhagor at y bagad sydd yn barod yn y dref hon—

(1) Mae llawer o deuluoedd yn ac o amgylch y lle nad ydynt yn perthyn i un o'r addoldai sydd yma, ond yn aelodau o gynnulleidfaoedd a ddaliant syniadau gwahanol iddynt ar faterion crefyddol. Bydd y gwasanaeth hwn yn gyfleus i'r cyfryw. Bydd yn dda ganddynt gael cyfleusdra newydd i ymdrafod â'r hen athrawiaethau, ac i gydymannog y naill y llall i weithredoedd da. Mae y man hwn yn ganolog, a gall fod yn lle cyfarfod i deuluoedd o'r fath a nodwyd nad ydynt, rai o honynt, yn gallu cyrhaedd yn fynych, yn enwedig yr hen a'r ieuanc o fysg y cyfryw, eu capeli cymmydogaethol. A thrwy fod, fel hyn, yn wasgaredig, ac allan i raddau o gymdeithas â'u brodyr a'u chwiorydd, mae oerfelgarwch yn agored i ddod yn mlaen; o leiaf, mae bod y cyfryw weithiau, a phob tro, os bydd modd, yn cwrdd â'u gilydd yma, yn rhwym o wresogi eu sel Gristionogol, a dyfnhau eu duwiol hiraeth. "Daionus yw trigo o frodyr yn nghyd." Trist iawn yw enaid y Salmydd wrth gofio y breintiau y buasai mewn meddiant o honynt, "Canys aethum gyda'r gynnulleidfa, cerddais gyda hwynt i dŷ Dduw, mewn sain, cân, a moliant, fel tyrfa yn cadw gwyl."

(2) Etto, y mae amryw yn y dref a'r gymmydogaeth nad ydynt yn awr yn perthyn i un gynnulleidfa yn y lle, nac allan o'r lle; nid oes un cyssylltiad gweledig rhyngddynt ag un eglwys Gristionogol. Mae y dosparth hwn i'w gael yn mhob man, i raddau mwy neu lai; maent yma hefyd. Safant draw oddiwrth yr eglwysi poblogaidd o herwydd gwahanol resymau. Mae rhai yn ddifater a diofal am ryw achos neu gilydd; ni theimlant yn gynhes gyda golwg ar eu hangenion ysprydol—mae rhyw sychder a dyeithriwch wedi ymaflyd ynddynt. Rhyw bethau bychain weithiau a ddechreuant achlysuro y dyeithriwch hwn; ond wedi y ffurfier yr arferiad, mae yn anhawdd ei orchfygu. Byddai yn dda iawn genym pe gallem lwyddo i gynnull y rhai hyn i fewn, a bod yn offerynol i ddihuno eu teimladau crefyddol, a'u dwyn i weled eu bod yn amddifadu eu hunain o gyfeilles oreu bywyd —o'r ffynnonell buraf o fwynhad y mae modd i ddyn ddrachtio o honi. Llawenydd mawr genyf fyddai cael cwmni y dosparth hwn—dosparth teilwng a chymmeradwy ar lawer ystyr—yma gyda ni yn cydymostwng o flaen y Tad Cyffredinol, ac yn cydfyfyrio uwchben rhyfeddodau ei gariad. Nid ystyriem ein llafur yn ofer pe y llwyddem i gael gan

rai o'r cyfryw bersonau i deimlo, nid fel y gwnant yn awr—y Dydd Sanctaidd yn faich ac yn flinder—ond yn ddydd o sirioldeb a hapusrwydd, yn ddydd o adfywiad trwy orphwysiad oddiwrth ofalon presenol, a myfyrdod ar berthynasau uchaf a chanlyniadau dwysaf bywyd. Mae ereill yn cadw eu hunain ar wahan oddiwrth yr eglwysi poblogaidd am y teimlant yn dra amheus, os nad yn llwyr argyhoeddedig, nad yw y golygiadau am Dduw, a dyn, a chrefydd a faentumir yn gyffredin, yn gysson â na rheswm na datguddiad. Nisgallant lai nag ystyried fod rhai o leiaf o'r pethau a ddysgir fel athrawiaethau—fel gwirioneddau sylfaenol—yn amddifad o sail yn natur pethau, yn eu rheswm a'u cydwybod eu hunain, yn hanes y byd, yn nghyfiawnder a chariad Duw. Teimlant fod llawer o bethau yn cael eu cymhell i'w sylw ag sydd o natur i'w gyru yn mhellach oddiwrth Dduw a chrefydd —yn mhellach oddiwrth orphwysfa i'r enaid. Pan yn gofyn am fara, tybiant mai cerryg a gynnygir iddynt; pan yr hiraetha eu calon i glywed am Dduw fel y Tad goreu, ystyriant mai fel meistr caled y portreadir ef iddynt. Mewn canlyniad, arosant ymaith; dewisant ymneillduo, a byw allan o bob cymdeithas grefyddol, i hel a holi drostynt eu hunain. Os caiff y cyfryw fod genym ni yma olwg lai annghysson ac annheg i'w dodi ger eu bron, geiriau yn cydredeg yn iach â chri a dymuniad eu henaid, ac appeliadau a gyrhaeddant at eu teimladau mwyaf sanctaidd, a'u hargyhoeddiadau difrifolaf, yna, bydd i ni lawenhau eu gweled gyda ni yn cael, i ryw fesur, eu hadeiladu, eu cyffro, a'u cysuro. Pwy bynag o'r dosparth hwn a ddichon ddyfod yma, gan gael rhyw ddeffroad a symbyliad o'r newydd i'w deimladau goreu, rhyw olwg fwy swynol ar grefydd bur a dihalogedig, fel oll yn hawddgar—llawenydd o'r mwyaf a fydd hi genym, yr hwn y mae ei lestr wedi ei daflu ar y tywod—wedi ei *strando*, oblegyd rhyw achos neu gilydd, os gallwn ni yma greu rhyw dòn fechan dan ei gwaelod, ac anadlu ond awel ysgafn dirion i'w hwyliau, cyfrifwn nad yw ein llafur yn yr Arglwydd yn ofer.

Dyna ddau ddosparth, ynte, ar y rhai y mae ein golwg—y teuluoedd sydd yn ac o amgylch y lle yn barod yn coleddu ein golygiadau, ac mewn cyssylltiad mwy neu lai agos â chynnulleidfaoedd yn yr ardal. Mae yn perthyn i rai o'r teuluoedd hyn blant, y rhai y mae yn naturiol dysgwyl i'r rhieni fod â dymuniad ganddynt i'w dwyn i fyny yn grefyddol, a thra fyddont dan eu gofal hwy, i'w harwain am addysg a chysur crefyddol lle y maent hwy eu hunain wedi ei gael. Y dosparth arall yw y rhai nad ydynt ar hyn o bryd yn myned naill ai byth neu ond yn anfynych i un lle o addoliad.

Yr wyf wedi aros ychydig yn ychwaneg nag a feddyliwn gyda'r mater hwn, er egluro yn amlwg i bawb y tir a gymmerwn a'r hyn sydd mewn golwg genym. Chwi a welwch bob un o honoch mai nid mewn ysbryd ymosodol, gelyniaethus, chwerw, cul, caethwas y mae'r mudiad hwn wedi dechreu. Mae maes yn agored i'w feddiannu, ac nid ydym ni ond cynnyg cymmeryd meddiant o hono, heb wneyd trais â neb na rhoddi tramgwydd i neb. Nid ydym yn ymhyryd â neb sydd eisoes ar eu maesydd eu hunain, ond dywedwn o galon wrthynt,

"Duw yn rhwydd i chwi." Nid yw yn annichonadwy nac yn annhebyg na chamddeallir ac na chamddarlunir ni; nid wyf o bell yn sicr na chamgyhuddir ni. Peth i'w ddysgwyl yw hyn, peth wedi bod, peth a fydd, nes y delo mwy o grefydd a mwy o ddynoliaeth i ffynu yn y byd. Ond byddai yn egwan ac yn llwfraidd dros ben ynom ni i ddywedyd, "Nis gwnawn ddim, rhag cael ein camddeall a'n camddarlunio. Nis agorwn ein genau yn gyhoeddus, ni chymmerwn un cam i amddiffyn yr olwg sy genym ni ar grefydd a gwirionedd, rhag i ni aflonyddu ar heddwch yr ychydig neu y llawer a ofnant weled neb arall newydd yn cymmeryd ei aradr fechan i'w faes. Er fod cyfle, a rhyw gymmaint o wahoddiad i ni lefaru, nis gwnawn, rhag y bydd i rywrai estyn bysedd atom, ac erlid, yn y dull y goddefir i erlidigaeth gymmeryd lle yn y wlad a'r oes hon."

Gyfeillion, yr ydym ni yn ymwrthod â'r fath esguson a hyna. Honwn hawl i lefaru y gwir, fel y deallaf fi, mor onest ag y medraf, mor ddidramgwydd ag y bo modd. Ceisiaf ochelyd megys yn awr, felly hefyd bob amser, i ddweyd gair a roddo boen diangen i neb. Hyderaf allu traethu fy marn, fy mhrofiad, fy annogaethau i rinwedd a duwioldeb, fy ngheryddon ar annuwioldeb, anffyddlondeb a rhagrith, fy ngobeithion am dynghed uchel dyn, y pethau mawrion sydd yn ei aros ar y ddaear a thu draw i'r bedd—*mewn cariad.* Nid sefyll i fyny yma a wnaf i ymosod ar ereill a ddywedant ac a wnant yr hyn a ymddengys iddynt hwy y pethau goreu a'r pethau uchaf, yn gymmaint ag i gyhoeddi, er mewn dull digon anmherffaith, yr hyn o wirionedd a ddatguddiwyd i fy rheswm, yr hyn o iawnder a ddatguddiwyd i fy nghydwybod, yr hyn o dduwioldeb a brofwyd yn sylweddol gan fy enaid fy hun, ac nid oes eisieu ymesgusodi am wneyd hyn—fy nyledswydd, eich dyledswydd yw gwneyd hyn. Nis gall neb ar dir cysson a theg ein beio ni am gynnyg at yr hyn y cynnygiant hwy eu hunain. Nid ydynt hwy a minau yn cydweled ar lawer o bethau yn dduwinyddol, mwy nag y gwnawn ar destynau o wleidiadaeth, neu ar bynciau yn dal cyssylltiad â threfniad ein bywyd o ddiwydrwydd beunyddiol. Ond fel ag y mae i'r sawl a wahaniaethant oddiwrthyf eu hawl a'u croesaw i amddiffyn a cheisio lledu yr hyn a gredant, yr hawl hon a faentumiwn inau y maes i mi, ac i bawb ereill o gyffelyb ddulliau o feddwl. Hyderaf y ffyna yspryd brawdol a hynaws, caredig a Christionogol, yn yr oll a ddywedir yma, gan athrawon a phobl, ac y cydunwch yn unfryd, er pob gwahaniaethau, i gau allan bob yspryd anfwyn, tramgwyddus, a chroes i'r ddoethineb sydd oddiuchod, yr hon sydd yn foneddigaidd, yn hawdd ei thrin, yn llawn trugaredd a ffrwythau da, diduedd a diragrith. Bydded ein gweddi:—

Dyma'r ffordd, medd un i'r bywyd,
  Amheu'n gadarn bydd y llall;
Ac er chwilio'n daer a diwyd,
  Syrthiwn bawb i lawer gwall:
Dad y Nef, dod gariad rhyngom,
  Lle mae'r hymrysonau'n faith,
Awn, beth bynag a ddel arnom,
  Felly'n iach i ben y daith.

Wedi dywedyd cymmaint â hyna, af yn mlaen i sylwi, yn gysson â'r testynau a ddarllenais ar y dechreu, fod dyn yn greadur addolgar,—fod ynddo ymchwiliad ac ymofyniad am Dduw,—nad oes orphwysfa i ddyn y tu yma i Dduw. Mae yr hyn a ddywedwyd ar hyn gan ddynion da yr hen amser yn parhau yn wirionedd, ac yn parhau i gael ei deimlo yn wirionedd, yn fwy neu lai, hyd y dydd hwn. *Mae mewn dyn duedd i addoli—chwant a newyn am hyn yn bodoli o'i fewn.* Gan ei bod yn anhawdd—ïe, yn nesaf peth i anmhossibl—i brofi hyn, oblegyd er fod newyn a syched am gymdeithas â Duw yn perthyn i deimladau dyfnaf a mwyaf sylweddol ein natur, etto, nid pethau materol ydynt fel coed a cherryg, y gellir eu gweled a'u trafod, ond cynhyrfiadau tufewnol, y rhai y deuwn yn adnabyddus â hwynt yn unig drwy wylio a sylwi ar brofiadau yr enaid. Nis gallaf, gan hyny, ond appelio at y profiad hwn yn eich calonau er cadarnhau fy ngosodiad. Ond fel y mae goreu y modd, mae yr hiraeth hwn am addoli yn angen mor ddwfn a chryf nas gallwn ei esgeuluso os ewyllysiwn gael heddwch tufewnol. Y mae yn mhob dyn, wedi ei ddwyn allan yn fwy neu yn llai amlwg; mae wedi ei rwymo i fyny gyda'n bodolaeth ysprydol; gellir edrych arno fel rhan o honom ni ein hunain yn fwy nâ'n haelodau neu fywyd y corff; ond fel pob teimlad neu gynhyrfiad dwfn arall a berthyn i'r natur ddynol, nid yw yn hawdd i'r deall gymmeryd gafael ynddo, ei ddangos, a'i ddal i fyny gerbron y byd. Ond pan y delom at ei weithrediadau allanol, gallwn siarad am dano gyda mwy o eglurhad (er nad gyda mwy o sicrwydd), am ein bod y pryd hwnw yn son am rywbeth y gellir mewn ffordd ei fesur a'i bwyso. Mae y duedd i addoli wedi corffoli ei hun mewn llenyddiaeth, mewn celfyddyd, ac mewn sefydliadau y rhai y mae wedi eu creu. Llenyddiaeth, celfyddyd, a'r sefydliadau hyn, ydynt rai o'r ffrwythau allanol, a gellwch farnu pa mor rymus—pa mor gyffredinol yw wrth y ffrwythau allanol y mae wedi eu cynnyrchu. Meddyliwch, fel enghraifft, am y ddau destyn a ddarllenais, neu am y ganfed Salm. Pa mor ddewisol a godidog yw y iaith yn yr hon y mae y Salm hona yn galw ar bob dyn yn mhob man i ddyfod gerbron yr Arglwydd gyda llawenydd. Nis gellwch ei darllen heb deimlo mai nid rhyw gasgliad yw o ymadroddion cyffredin diystyr, ond ei bod yn codi o galon fawr dynoliaeth. Ac os yw ei darllen neu ei chlywed yn dihuno math o ateb, nad pa mor wan, yn ein calonau ni, yr ydym yn rhwym o fod yn myned i fewn i deimladau yr ysgrifenydd, a chyfranogi gydag ef o'r syniadau y mae yn eu cynnwys. Cawn yma, gan hyny, brawf nid yn unig o *nerth* y syniad o addoli, ond hefyd o'i *barhad.* Er pan y cyfansoddwyd y Salm hon, y fath gyfnewidiadau sydd wedi cymmeryd lle yn y byd! Mae cenedlaeth ar ol cenedlaeth wedi byw, gwneyd ei gwaith, a diflanu; sefydliadau a addawent fod mor oesog â'r ddaear ei hun wedi malurio yn llwch; etto, yn uchel, fry, uwchlaw pob cyfnewidiad, uwchlaw ystwr amheuon dynol, a berw daearol nwydau, y mae llais y Salmydd yn treiglo dros yr oesau, ac yn dihuno adsain mwy neu lai dwfn a hirbarhaol yn mhob oes. Daliaf, gan hyny, er nas gallwn ddweyd mewn cynnifer o eiriau pa beth yw y syniad hwn o addoli mwy nag y gallwn ddweyd pa beth yw y teimlad

sydd yn peru i'r fam anwylo ei chyntaf-anedig; etto, gwyddom ei fod yn ffurfio rhan bwysig o'n natur, a'i fod yn crio yn ddiorphwys am ddangos ei hun.

Dynol yw pob dynol galon.
Hyd y nod yn mronau anwariaid.
Y mae hiraeth, awydd, ymdrech
Am y da nas llwyr ddeallant.
Ac y dwylaw gwan, digymhorth,
Wrth balfalu yn y t'wyllwch,
Gwrddant a deheulaw Duw'n y t'wyllwch,
Ac fe'u codir, ac fe'u nerthir.

Yn awr, mae addoliad yn golygu dau beth. Yn gyntaf, cred yn modolaeth Duw. Yn ail, syniad neu hiraeth mewn dyn yn awyddu am gymdeithas ag ef. Nid yw y gydnabyddiaeth noeth o fodolaeth Duw yn ddigon i'n galluogi i'w addoli mewn ysbryd a gwirionedd,—rhaid i ni deimlo ei fod y bywyd dwfn ag sydd yn gorwedd dan bob math o bethau creedig, a rhaid i ni ei garu a'i barchu fel y Bod uchaf a phuraf yn yr holl fyd cyn y gallom ei addoli yn iawn. Ond mae y profion o'i fodolaeth yn gorwedd yn ddwfn yn ein calonau ein hunain, ac yn mhob peth o'n cwmpas. Darfu iddo egluro ei hun yn yr amser a aeth heibio, oblegyd nid neb ond Efe a alwodd bob peth i fod, a ddododd i lawr *sylfeini y ddaear fel na syflai*, a adeiladodd y sêr hyna, y rhai y mae eu presenoldeb sanctaidd yn coroni ael y nos ac yn son wrth ddyn dros fyth am harddwch, ac anfarwoldeb, a Duw, mewn tônau ag ydynt i glust rheswm fyth yn sanctaidd.

Beth, er mai dystaw'r trefnus Ior,
Wrth amgylchynu tir a môr?
Beth, er mai tawel araeth nef,
Ac na chlyw clustiau cnawd mo'u llef?

Yn nghlust doethineb traetha rhai'n,
Angylaidd ddysg mewn hyfryd sain,
Byth wrth ddysgleirio, canant hyn:
"Duw bia'r llaw a'n gwnaeth ni'n llyn."

Ond nid yn yr amser a aeth heibio yn unig yr oedd ei allu yn amlygedig, ac ni ddyhyspyddwyd ef yn y weithred o greu. Canys yn awr, megys cynt, i'r duwiol, i'r galon serchog, ufudd, mae y greadigaeth yn cyhoeddi ei ddoethineb a'i allu mewn seiniau mor uchel a chlir ag erioed. Ydyw, fy nghyfeillion, mae yr Hwn ni huna ac ni chwsg, o hyd yn gwneyd y ddaear a'r nef yn hardd â'i Ddwyfol bresenoldeb; mae o hyd yn cyfarwyddo ac yn llywodraethu y cyfnewidiadau a gymmerant le yn y byd o'n cylch, ond gan y galon gariadus, ymddiriedgar, adwaenir Ef fel yr unig Fod Anfeidrol a pherffaith, yr Hwn "sydd heb gyfnewidiad na chysgod troedigaeth." Y mae elfenau addoliad

crefyddol, gan hyny, o'n mewn ac o'n cylch. Mae y ddaear, gyda'i golygfeydd teg a'i ffurfiau hawddgar, yn dwyn ar gof i ni y Bôd, gogoniant yr Hwn y mae yn ei ddatguddio ; ac y mae ein bywyd gyda'i obeithion a'i ddymuniadau, ei dreialon, a'i berthynasau rhyfeddol, yn awgrymu i ni bob dydd ein bod yn byw ar drugaredd Gallu uwch a sancteiddiach nâ ni ein hunain.

Pwy sydd a'r nad yw yn teimlo mai edau fain iawn, y gellid ei thori yn ddwy unrhyw funyd, sydd yn ein cyssylltu â'r pethau mwyaf anwyl a chyssegredig yn y bywyd hwn?—pwy sydd heb deimlo y gall y cartref yn yr hwn y nythais heddyw yn nghanol gwenau siriol cariad a serch gael ei gymmylu yfory gan gwmmwl du o gystudd neu o angeu? Addoli mewn rhyw ffordd a raid i ni, ynte, os cynnygiwn godi uwchlaw treialon y ddaear, a bod, mewn unrhyw ystyr wirioneddol o'r gair, yn blant i'r Duw byw. Ond mae y teimlad hwn o ymddybyniad, yr hwn yw y sylfaen iselaf i addoliad, yn cael ei gynnorthwyo gan deimladau ereill. Dim ond un teimlad yw—dim ond un modd i wrteithio yr yspryd i addoli. Cedwir tân defosiwn yn nghyn ar allor y galon gan bob meddwl pur a feddyliwn—gan bob cynhyrfiad sanctaidd a chariadus—gan bob peth sydd yn hawddgar ac uchel yn y byd o'n cylch—gan bob peth godidog ac urddasol mewn cyssylltiad â bywyd dyn. Y mae munydau yn mywyd pob dyn cywir, pan y mae pelydrau o'r byd ysprydol yn tywynu ar ei enaid o'r anfeidroldeb mawr o'i gylch—munydau pan y mae ei ysprydol fel pe tae yn troi trwy derfynau cnawd, ac yn gwneyd y greadigaeth yn deml iddo, pob amser a thymhor yn Sabboth, y mawr a'r doeth o bob oes a gwlad yn gydaddolwyr ag ef. Etto, rhaid addef mai anaml y daw y fath gyfnodau, hyd y nod i'r goreu a'r sancteiddiaf o blant Duw. Mae genym ormod o demtasiynau i ryfela i'w herbyn, ac y mae ein serchiadau naturiol, y rhai a'n cylymant wrth leoedd ac amserau neillduol, yn rhy gryfion i ganiatau i ni, oddieithr ar uchelwyliau o fwynhad, dori ein hunain ymaith fel hyn oddiwrth ein cyd-ddynion. Mae gan le ac amser ddylanwad rhyfedd arnom. Y mae presenoldeb y rhai a gerir genym, ac o galonau y rhai y rhed cyffelyb deimladau i gydgymmysgu â'r eiddom ni, yn helpu i'n gwneyd yn gryfion ac yn wrol. Teimlwn nad ydym ar ein penau ein hunain yn wrthddrychau cariad Duw; mae y cylymau a'n cyssylltant â'n brodyr yn cael eu tynu yn dynach, ac fel hyn, y mae addoli yn gymdeithasol yn cynnorthwyo i ddiwallu angenion dyfnaf y galon ddynol. Helpa i'n dwyn i undeb agosach â Duw ein Tad ar un llaw, ac â'n cyd-ddynion, ein brodyr, ar y llaw arall. Nid dim o beth, gan hyny, yw cael rhyw un sefydliad i'n codi i fyny uwchlaw y byd, ac i chwythu fflam ein cariad at Dduw a dyn. Nid dim o beth yw cael un dydd o saith yn rhydd oddiwrth ofalon a helbulon cyffredin bywyd. Nid dim o beth yw cael un lle—rhyw le o addoliad—anwyl i ni gan lawer adgof—lle y gallwn ddyfod gyda'n teimladau drylliedig, yn sychedu am Dduw, ac yn nghwmni ein brodyr, y rhai y mae eu calonau yn wresog gan gyffelyb deimladau, y rhai a deimlant yr un angenion a'n hunain, i blygu yn isel ac yn barchus o flaen gorsedd yr Anfeidrol, ac i weddio am ddoethineb a nerth oddiuchod i'n harwain ar hyd

llwybr dyledswydd, ac i droedio ar hyd-ddo gyda chamrau gwrol a diofn.

(I'w barhau).

Manion a Hanesion.

Cwmbach.—Cawsom y pleser o wasanaeth y Parch. George Evans, M.A., Chesterfield, yma nos Sul, Awst 5.

Torir un darn o bren i fod yn geiliog y gwynt, ac un arall i fod yn gamfa dros afon, a gwelir rhinwedd y pren yn y ddau.

Ar derfyn ei yrfa golegawl yn Manchester New College, darfu i Mr. T. B. Evans, M.A., gael ei anrhydeddu â'r brif wobr o £25 am ei waith yn ei ddosparth.

Breintiwyd yr eglwysi yn y Cwmbach, Aberdar, Cefn, a Dowlais, ag ymweliad oddiwrth y Meistri A. W. Worthington, B.A., a D. Martineau fel dirprwyaeth ar ran y *Sustentation Fund.* Eu hamcan oedd gweled ansawdd ein capeli yn Nghymru, a dyfod i fwy o adnabyddiaeth â'n gweinidogion. Deallwn iddynt hefyd ymweled â'n heglwysi yn Sir Aberteifi.

Hen Dy Cwrdd, Trecynon.—Cynnaliwyd gwyl dê flynyddol y capel uchod dydd Iau, Gorphenaf 19, 1888, pan yr ymgasglodd dros 340 o bersonau i yfed tê a bwyta bara brith, &c. Wedi i bawb gael digonedd, symmudwyd y llieiniau oddiar y gwahanol fyrddau, a chafwyd cyngherdd ardderchog yn yr hwyr. Cymmerwyd rhan gan y canlynol:—Madame Rees (Llinos Rhondda), Miss Jones (Llinos Emlyn), Mrs. Anthony, Miss Mary Ann Jones, Meistri Tom Felix, Tom Bowen, John Fisher Jones, Richard Hopkins(Tresalem), ac R. Hopkins(Trecynon). Cyfeiliwyd gan Mr. Richard Howells, Maesgwyn. Yr oedd y capel yn orlawn, a llawer yn methu cael mynediad i'r capel. Cafodd pawb eu boddloni yn y tê a'r gyngherdd. Siaradai llawer mai hon oedd un o'r cyngherddau goreu a gynnaliwyd yn Nhrecynon.

Dydd Sul Gorphenaf 29, 1888, cynnaliodd Ysgol Sul yr Hen Dy Cwrdd ei chwrdd cwarter, dan lywyddiaeth Mr. Thomas Hopkin. Y personau canlynol yn cymmeryd rhan yn y cwrdd:—M. Jane Edwards, Tydian Jones, Lena Jones, Edward Morgan, Thomas Lewis, Dosparth J. Fisher Jones, Ann Tydian Jenkin, William Price, Mary Davies, Lizzie Jones, J. Fisher Jones, Mrs. Anthony, Alice Griffiths, Thomas Hopkins, Jenkin Evans, Lizzie Hopkins, Mary Llewelyn, Llewelyn Hopkin, Morgan Morgans, a Gwenllian Hawys Jenkins. Yr oedd yn gyfarfod dyddorol iawn.

Dydd Llun, Awst 6, 1888 (Bank Holiday), ymunodd Ysgol Sul yr Hen Dy Cwrdd â'r orymdaith flynyddol perthynol i'r gwahanol enwadau crefyddol yn nosparth Trecynon. Wedi gorymdeithio am oddeutu awr, ymneillduodd Ysgol yr Hen Dy Cwrdd yn ol y drefn yn rheolaidd i'w chapel ei hun, yn rhifo oddeutu 142, i gael gwledd o dê a bara brith, a chafwyd cwrdd adloniadol a dyddorol iawn yn yr hwyr.—*Rees Phillips.*

Dowlais.—Y mae yn bleser genym nodi fod Mr. Evans, a Mr. H. Lloyd, wedi rhoddi nifer o Lyfrau Emynau at wasanaeth eglwys Dowlais. Y mae mudiad ar droed genym i ddyddimu y ddyled ar y capel. Gobeithiwn y diflana y ddyled tua diwedd y flwyddyn hon. Derbynir unrhyw rhodd gyda diolchgarwch gan y gweinidog, Mr. Lewis, White Street, Dowlais, neu Mr. M. Evans, Church Street, Penydarren.

Gellionen.—Dydd Mawrth, Gorphenaf 31, unwyd mewn glan briodas, gan y Parch. W. J. Davies, y gweinidog, yn ngwydd y cofrestrydd, Mr. D. T. Price, Pontardawe, a Miss Margaret Davies, Trebanos (chwaer Mrs. James Evans). Boed bendith Duw ar yr uniad.

Bydd yn dda gan gyfeillion eglwys Gellionen glywed fod y cwmmwl sydd wedi bod yn hongian uwchben yr eglwys er ys amser maith, o'r diwedd wedi myned ymaith. Y mae y gweithredoedd wedi dyfod i law, a chwblheir y gwaith o appwyntio ymddiriedolwyr newyddion yn fuan.

Nottais.—Cynnaliodd yr Ysgol Sabbothol berthynol i'r lle uchod ei gwyl flynyddol ar y 26ain o Orphenaf. Wedi diwallu ein hangenrheidiau â thê a bara brith, ymneillduwyd i lan y môr i anadlu yr awyr iachusol a chwythai dros y cefnfor. Buom yn ffortunus iawn i gael tywydd teg, ac wedi cyrhaedd i le cyfagos i'r *Rest* pasiwyd yr amser heibio yn bleserus iawn gan amrywiol chwareuon, yn y rhai y cymmerwyd rhan gan yr hen ar ieuanc yn ddiwahan. Cyn ymadael â'r traeth canwyd emyn o ddiolchgarwch, ac aethom yn ol i'r Nottais, yn yr hwn le, ar ol ychydig eiriau ac ychwaneg o ganu, yr ymwahanwyd, wedi mwynhau ein hunain yn ardderchog.

Yr oedd y pregethwr yn y Gymmanfa Fethodistaidd yn New York eisoes wedi myned yn y blaen am awr a chwarter, pan y dywedodd, "Mae yn ddrwg genyf nas gallaf ymhelaethu ar y *point* hwn." Ac meddai rhywun yn y gynnulleidfa, ar *dop* ei lais, "Molwch yr Arglwydd!"

Y mae enaid wrth ganolbarth natur, a goruwch ewyllys pob dyn fel nas gall un o honom wneuthur cam mawr â'r bydysawd.

Dywedir fod gwlaw Gorphenaf diweddaf yn fwy nag yr ydys wedi ei weled yn un Gorphenaf oddiar y daeth mesur gwlaw i arferiad.

Yn mhlith yr ymgeiswyr llwyddiannus yn Mhrif Athrofa Llundain yn ddiweddar ceir enwau Miss Mary Griffith, Poplars, Aberdar, a Mr. J. T. Davies, Coleg Henadurol, Caerfyrddin. Pasiodd y naill yr *Intermediate in Science* a'r llall yr *Intermediate in Arts.* Llwyddiant a ddylyno'r ddau.

Marwgofion.

Mehefin 8, bu farw Elen Lee, baban Daniel ac Anne Jones, Rhyd-ddu, Glanwenog, yn ddeg wythnos oed, a chladdwyd hi ar y 12fed yn mynwent newydd Capel y Bryn. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, gweinidog y lle.

Ar frys, fel gwir dywysen,—addfedodd
I fyd sydd uwch haulwen;
Na wyler ar ol Elen,—
Naf aeth â hi i'r nef wen.—*Gwarnant.*

Awst 3, Thomas John Jones (Cynonwyson), Aberdar. Ganwyd ef Ebrill, 1822, ar Gefncoedycymmer. Ei dad oedd John Jones (Llangiwc), a'i fam oedd Mary, merch Edward mab Harry (Garwdylau), a gwraig Harry oedd Mary, merch Sion Llewelyn, y bardd o Goedycymmer. Yr oedd William Harry, y bardd, yn ewythr brawd ei dadcu i Cynonwyson. Am ei fod yn gloff, ac yn afiach, ac felly yn argoeli bod yn analluog i waith caled, rhoddodd ei rieni addysg iddo gwell na'r cyffredin, fel y bu am rai blynyddau, pan yn ieuanc, yn cadw ysgol. Wedi hyny, pwyso a chadw cyfrifon y bu fynychaf. Cyrhaeddodd sylw fel llenor yn foreu iawn. Ysgrifenai lawer i *Udgorn Cymru*, papyr y *Chartists*, yn benaf, efallai, ar bynciau gwleidyddol. Mor bell ag y gwyr ysgrifenydd y llinellau hyn, efe oedd y diweddaf o *Chartists* plwyf Aberdar. Am lawer o flynyddau nid oedd un o'r cyfarfodydd llenyddol yn Aberdar yn gyflawn hebddo ef; a bu lawer gwaith yn ysgrifenydd yn yr eisteddfodau. Efe oedd, os wyf yn cofio, ysgrifenydd Eisteddfod fawr y Carw Coch (1856) yn nghyd a'r Eisteddfod Genedlaethol gyntaf (1862),—yr eisteddfod hono y darfu i'r gwynt chwareu y fath hafog â hi trwy ddinystrio'r babell ar y Twyncoch, a'r hon a ddygodd Alaw Goch i'r fath fri, trwy iddo sicrhau i'r pwyllgor yr arian oedd yn angen i wneuthur y diffyg i fyny, fel y cafwyd eisteddfod lwyddiannus yn Nhy'r Farchnad. Bu'n ysgrifenydd i rai clybiau am flynyddau lawer. Yr oedd yn ohebydd i'r YMOFYNYDD o'i gychwyniad yn 1847, dan yr enw Gwenynen Frytanaidd, Cynonwyson, Sion Llwyd, &c. Yr oedd yn ganor medrus a bu yn hir yn athraw defnyddiol yn Ysgol Sul yr H.D.C., lle yr oedd wedi bod yn aelod eglwysig er yn fachgen. Cafodd gynhebrwng lluosog a chladdwyd yr hyn oedd farwol o hono yn y gladdfa gyffredinol ar y 7fed, gweinidog yr H.D.C., yn gwasanaethu.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar,

Barn y Cyhoedd am George's Pills.

DYFYNIADAU O LYTHYRAU.

"Gwerthfawrocach ynt i mi nâ'r aur coeth,—arbedasant fy mywyd."

"Yr oedd pob meddyg yn ystyried fy iechyd yn ddiobaith, felly Syr, ar ol i bawb fethu, chwi a'm gwnaethoch yn holl iach."

"Clywais ganmoliaeth uchel i'ch Peleni, ond fy marn ddiduedd yw, na fynegwyd 'mo'r hanner."

"Cyn cymmeryd eich Pills nis gallwn gerdded gan y poen yn fy ymysgaroedd, ond yn awr, er fy mod yn 67 mlwydd oed, yr wyf yn teimlo fel pe na bawn ond 30."

"Yr ydwyf yn canmol eich Peleni wrth fy holl gwsmeriaid, oblegyd y maent yn wir dda."

"Ni welwyd meddyginiaeth fel yr eiddoch chwi erioed o'r blaen yn ein gwlad."

"Cynghorem bawb—o herwydd y ffug-beleni sydd yn y farchnad—i fod ar eu gwyliadwraeth pan yn prynu GEORGE'S PILLS."

"Yr oeddwn yn methu sefyll gan bendro, ac yr oedd *swashes* o ddwfr sur yn dyfod i fy ngenau. Ni chymmerais ond un blychaid o'ch Peleni cyn fy llwyr iachau."

"Yr oedd trymder anarferol yn fy nal ar ol bwyta, a chawn anesmwythder y nos gan freuddwydion brawychus; ac mae fy mhoenau erbyn hyn yn *things of the past.*"

"Er i mi wneyd aml brofion o alluoedd meddygon, yr oedd y cwbl yn ofer hyd i mi wneyd prawf o'ch Peleni chwi."

"Yr ydwyf yn dymuno gwneyd y gwellhad hwn yn hyspys er calondid i chwi, er lles i ereill, ac er clod i'r Goruchaf."

"Y mae llawer o siarad yma (California) am eich Peleni; mawr y lles y maent yn ei wneyd."

"Edrychwn ar eich Peleni fel rhai o'r pethau hyny ag ydynt yn angenrheidiol i gyssur a dedwyddwch teuluaidd."

"Nis gwn am un Feddyginiaeth yn Nghymru mewn cymmaint o fri, nac ychwaith wedi gwneyd cymmaint o ddaioni."

"Edrychir arnoch gan floedd fel cymmwynaswr i'ch cenedl."

"Mae'n Feddyginiaeth rad, ryfeddol ei pharhad, effeithiol, syml, hawdd ei chael trwy holl ororau'n gwlad."

"Y mae yr Americaniaid yn meddwl y byd am eich meddyginiaeth, er gwaethaf eu rhagfarn yn erbyn pob peth Cymreig."

"After taking a few doses he passed no less than forty gall-stones."

"When I show them the *scores of stones* I have passed by taking your Pills, they are *struck dumb with wonder.* Seeing is believing."

"Your Pills astonish the people here by their miraculous effects."

"Dyma un o'r bendithion mwyaf i ni, y dosparth gweithiol, a allasai Rhagluniaeth ei drefnu."

Ar werth drwy yr holl fyd, mewn blychau 1*s.* 1½*c. a* 2*s.* 9*c. yr un.*

Perchenog :—J. E. GEORGE, M.R.P.S., HIRWAIN.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU :—J.J., Quaker's Yard ; Rev. G.E., Chesterfield ; D.H., Pontsticyll ; T.J., Llangeler ; T.J., New Court ; E.P., Glyncorrwg ; D.J., Ystrad ; R.W., Cefn ; Mrs. H., Gilfachgoch ; W.J., Wick ; Miss J., Wern ; M.T., Llangors ; W.D., Penybryn ; T.D., Dolbwba ; W.L., Pontypridd ; M.M., Aberdar ; R.G., Cwmavon.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,
CEFNCOED,
NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU :—Pris 3c., trwy'r post, 3½c. ; ar dri rhifyn a throsodd tehr y cludiad.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnelir ein cwrdd chwarterol nesaf yn y Cwmbach, Aberdar, ar y 3ydd a'r 4ydd o Hydref. Pregethwr—y Parch. R. C. Jones. Y Parch. John Davies i ddarllen papyr ar "Weddi."

Yr oedfaon :—Nos Fercher, am 7. Dydd Iau, am 11, 2.30, a 6.30.

E. W. LLOYD.

TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

Pob Tanysgrifiadau i'w hanfon i Rev. R. C. JONES, Lampeter

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

EMYNAU O FAWL A GWEDDI.

Anfonir copi (*specimen*) rhwym yn rhydd gyda'r *post* am 2s.